

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor
Dyddiad: Dydd Mawrth, 29 Medi 2020 Kayleigh Imperato – Dipwrwy Glerc
Amser: 09.00 0300 200 6565
Deisebau@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**
(Tudalennau 1 – 51)
- 2 **Deisebau COVID-19**
 - 2.1 P-05-1006 Rhyddhau'r £59 miliwn o bunnoedd i'r celfyddydau er mwyn atal lleoliadau cerddoriaeth lleol ar lawr gwlad rhag cau
(Tudalennau 52 – 55)
 - 2.2 P-05-1013 Rhowch gymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru
(Tudalennau 56 – 59)
 - 2.3 P-05-1011 Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol
(Tudalennau 60 – 71)
 - 2.4 P-05-1015 Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol
(Tudalennau 72 – 82)
 - 2.5 P-05-1017 Caniatáu i ddisgyblion wisgo mygydau ym mhob rhan o safle'r ysgol
(Tudalennau 83 – 92)



2.6 P-05-1020 Cyflwyno proses apelïadau yng Nghymru mewn perthynas â'r holl Raddau Asesu Canolfannau

(Tudalennau 93 – 101)

3 Deisebau newydd

3.1 P-05-995 Rhyddid i Roi Gwaed

(Tudalennau 102 – 111)

3.2 P-05-1007 Uno Yr Hôb a Chaergwrle i greu ward dau aelod yn Sir y Fflint

(Tudalennau 112 – 121)

3.3 P-05-1008 Dysgu cymorth cyntaf iechyd meddwl yn ysgolion Cymru

(Tudalennau 122 – 128)

3.4 P-05-1009 Gorchmynnwch Gynghorau Cymru i gymhwyso gordal o 100 y cant o leiaf i'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi

(Tudalennau 129 – 138)

3.5 P-05-1010 Ymchwiliad annibynnol i'r llifogydd yn Rhondda Cynon Taf yn 2020 fel bod gwersi yn cael eu dysgu

(Tudalennau 139 – 159)

3.6 P-05-1012 Triniaeth mewn siambr ocsigen i gleifion ffibromyalgia wedi'i hariannu drwy'r GIG

(Tudalennau 160 – 168)

3.7 P-05-1016 Dylid ymestyn y Grant Cartrefi Gwyrdd newydd i Gymru

(Tudalennau 169 – 175)

4 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

COVID-19

4.1 P-05-960 Dylid talu costau angladdau pob un o staff y GIG sy'n marw o Covid-19 neu gyda'r feirws

(Tudalennau 176 – 178)

Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

- 4.2 P-05-868 Diogelwch Dwr, Atal Boddi ac effeithiau Sioc Dwr Oer i'w haddysgu ym mhob Ysgol yng Nghymru
(Tudalennau 179 – 182)
- 4.3 P-05-933 Gwahardd pysgod aur rhag cael eu rhoi i ffwrdd mewn ffair.
#OperationGoldfish
(Tudalennau 183 – 185)
- 4.4 P-05-941 Cylch gwaith bioamrywiaeth ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru
(Tudalennau 186 – 195)
- 4.5 P-05-951 Gosodwch derfyn ar uchafswm y geist bridio mewn sefydliadau bridio cwn trwyddedig yng Nghymru
(Tudalennau 196 – 198)
- 4.6 P-05-953 Gwahardd poteli llaeth plastig defnydd untro mewn ysgolion
(Tudalennau 199 – 201)

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

- 4.7 P-05-965 Annog y Llywodraeth i gyflwyno ward ar wahân, ar gyfer teuluoedd sy'n colli plentyn drwy gamesgoriad
(Tudalennau 202 – 204)
- 4.8 P-05-940 Gostwng nifer y llawdriniaethau a gaiff eu canslo
(Tudalennau 205 – 206)

Cydraddoldeb

- 4.9 P-05-798 Gwasanaethau cymorth i ddynion sy'n ddiodefswyr trais yn y cartref i gael eu rhedeg a'u cyllido'n annibynnol
(Tudalennau 207 – 210)

Tai a Llywodraeth Leol

4.10 P-05-898 Dylid gwahardd defnyddio byrddau A yng Nghymru

(Tudalennau 211 - 213)

Economi a Thrafnidiaeth

4.11 P-05-913 Creu Llwybr Amldefnydd Lôn Las Môn

(Tudalennau 214 - 245)

Addysg

4.12 P-05-932 Addysg ar alergeddau bwyd mewn ysgolion a hyfforddiant EPI-PEN
gorfodol

(Tudalennau 246 - 259)

4.13 P-05-950 Dysgu Amaethyddiaeth ac Addysg Cefn Gwlad o oed 4 i 16 yn ein
Hysgolion

(Tudalennau 260 - 262)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 2.1

P-05-1006 Rhyddhau'r £59 miliwn o bunnoedd i'r celfyddydau er mwyn atal lleoliadau cerddoriaeth lleol ar lawr gwlad rhag cau

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Neil Bates, ar ôl casglu cyfanswm o 100 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae llawer o'r lleoliadau celfyddydol ac adloniant yn wynebu cael eu cau yn fuan. Oni bai fod Llywodraeth Cymru yn dechrau trefnu cymorth yn syth drwy ddyrannu'r £59 miliwn o bunnoedd sydd ganddi ar gyfer y diwydiant bydd llawer o leoliadau yn cau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yn anffodus, mae adloniant a'r celfyddydau fel petaent ar waelod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Ychydig iawn o drafod sy'n digwydd ac mae diffyg gwybodaeth dim ond yn ychwanegu at y broblem.

Cefnogwch y diwydiant adloniant drwy arwyddo'r ddeiseb hon cyn i ddiwydiant hanfodol arall gael ei golli yn eich ardal chi a mwy o bobl wynebu diweithdra. Mae'n bryd i Lywodraeth Cymru ddangos cefnogaeth.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1006
Ein cyf/Our ref DET/02020/20

Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

02 Medi 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Awst ynghylch yr ohebiaeth a gafodd y Pwyllgor Deisebau gan Neil Bates, sydd ar hyn o bryd yn casglu llofnodion am ddeiseb i ryddhau cyllid i'r sector diwylliant i atal lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad rhag cau.

Cafodd Cymru Greadigol ei lansio'n swyddogol ym mis Ionawr gyda cronfa fechan o £20,000 ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yn cael ei chyhoeddi yr un noson. Cafodd pedwar lleoliad (dau yng Ngogledd Cymru a dau yn y De) £5,000 yr un ddiwedd Chwefror drwy'r gronfa hon.

Cafodd 22 o fusnesau cerddoriaeth gyfanswm o £402 mil drwy'r gronfa cymorth i gerddoriaeth ar lawr gwlad, a gafodd eu canmol am eu cyflymder a'u heffeithiolrwydd gan y diwydiant a rhanddeiliaid, megis yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth, a siaradodd yn bositif yn ystod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am effaith COVID-19 ar y diwydiannau creadigol. Mae manylion llawn y rhai dderbyniodd gyllid ar gael ar <https://llyw.cymru/cefnogaeth-i-leoliadau-lleol-cerddoriaeth-yng-nghymru>

Cafodd cyfres o sylwadau gan y rhai dderbyniodd gyllid ei gyhoeddi'n ddiweddar ac mae ar gael ar <https://www.wales.com/cy/cymru-greadigol/cronfa-gymorth-ar-gyfer-cerddoriaeth>

Cronfa Cymru Greadigol oedd y cymorth ariannol cyntaf oedd ar gael i fusnesau cerddoriaeth mewn unrhyw fan yn y DU, gyda'r cyfnod rhwng gwneud cais a derbyn yr arian ar gyfartaledd yn llai nag wythnos.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Dyma dystiolaeth bod cefnogi'r diwydiant cerddoriaeth yn flaenoriaeth i Cymru Greadigol. Rydym yn cydnabod yr amgylchiadau anodd ac ansicr iawn sy'n cael eu hwynebu gan fusnesau yn y sector ledled Cymru, ac rydym wedi ymrwmo i gynnig cymorth i'r diwydiant. Rydym wedi sefydlu grŵp cymorth COVID-19 i randdeiliaid cerddoriaeth i gasglu gwybodaeth am effaith y pandemig, ac i weithio gyda'n partneriaid i weld y ffordd orau o gynnig cymorth mewn ymateb i hyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £53 miliwn arall i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ddelio gydag effaith y pandemig. Bwriad y Gronfa Adferiad Diwylliannol yw rhoi cymorth hanfodol pellach i theatrau, orielau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, gwasanaethau archif, llyfrgelloedd, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol sydd wedi gweld colled enfawr o ran referniw oherwydd y pandemig. Bydd y cyllid yn cefnogi'r sefydliadau a'r unigolion yn y sector.

Er mwyn targedu is-sectorau penodol yn uniongyrchol, caiff y Gronfa Adfer Diwylliannol ei darparu ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Agorodd Cyngor Celfyddydau Cymru eu cronfa ar gyfer ceisiadau ar 17 Awst ac mae fy swyddogion yn gweithio i gwblhau manylion y cynllun ar gyfer cronfa Llywodraeth Cymru fydd yn cynnwys cefnogaeth i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad. Rydym yn disgwyl derbyn manylion llawn sut y bydd y broses ymgeisio yn gweithio yn fuan.

Byddwn yn parhau i gysylltu â'r sector cerddoriaeth drwy ein grŵp cymorth rhanddeiliaid COVID i helpu i sicrhau bod ein lleoliadau cerddoriaeth yn ail-agor yn ddiogel cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

P-05-1006 Release the £59 million to the arts to prevent local grassroots music venues from closure, Correspondence – Petitioner to Committee, 22.09.20

Many venues are closing and they will never reopen the funds issued so far have been paltry and unless support is given by the Welsh Government we will lose a valuable commodity to many villages and towns in the area

Without these venues hotels and many other businesses will also suffer due to the decrease in visitors.

I'm fully aware of the current situation regarding the pandemic and the guidelines of social distancing but have to say its rather hypocritical when you run a campaign to entice people back to restaurants and such increasing the risk of social gatherings.

All I ask is that the committee take another look at the current plight and put together a plan of assisting theatres and venues time is of the essence it's no use having £53 million pounds sitting there whilst venues and people face financial ruin

.

Eitem 2.2

P-05-1013 Rhowch gymorth ariannol i unigolion hunangyflogedig yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Peter Phillips, ar ôl casglu cyfanswm o 189 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi pryd y bydd perfformiadau cerddoriaeth fyw yn gallu ailddechrau ar ôl i'r cyfnod cloi ddod i ben. O ganlyniad, ni all unrhyw un sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth fyw yng Nghymru ennill bywoliaeth. Mae'r Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth yn dod i ben ar 17 Awst. Ar ôl y dyddiad hwnnw, os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i wahardd perfformiadau cerddoriaeth fyw, dylai fod yn orfodol i'r Llywodraeth ddarparu cymorth ariannol uniongyrchol i unigolion hunangyflogedig yng Nghymru sy'n ennill bywoliaeth yn y diwydiant hwn.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gorllewin De Cymru



Eich cyf/Your ref P-05-1013
Ein cyf/Our ref DET/02042/20

Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Government.Committee.Business@gov.wales

02 Medi 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AS,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Awst ynghylch yr ohebiaeth a gafodd y Pwyllgor Deisebau gan Peter Phillips, sydd ar hyn o bryd yn casglu llofnodion am ddeiseb i ryddhau cyllid i unigolion hunan-gyflogedig o fewn y diwydiant cerddoriaeth byw yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £53 miliwn i helpu sector diwylliant amrywiol Cymru i ddelio gydag effaith y pandemig. Bwriad y Gronfa Adferiad Diwylliannol yw rhoi cymorth hanfodol pellach i theatrau, orielau, lleoliadau cerddoriaeth, safleoedd treftadaeth, amgueddfeydd, gwasanaethau archif, llyfrgelloedd, digwyddiadau a gwyliau, a sinemâu annibynnol sydd wedi gweld colled enfawr o ran referniw oherwydd y pandemig. Bydd y cyllid yn cefnogi'r sefydliadau a'r unigolion yn y sector.

Er mwyn targedu is-sectorau penodol yn uniongyrchol, caiff y Gronfa Adfer Diwylliannol ei darparu ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru. Agorodd Cyngor Celfyddydau Cymru eu cronfa ar gyfer ceisiadau ar 17 Awst ac mae fy swyddogion yn gweithio i gwblhau manylion y cynllun ar gyfer cronfa Llywodraeth Cymru fydd yn cynnwys cefnogaeth i weithwyr creadigol llawrydd proffesiynol a lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad. Rydym yn disgwyl derbyn manylion llawn sut y bydd y broses ymgeisio yn gweithio yn fuan.

Mae hyn yn dilyn cronfa fechan o £20,000 i bedwar o leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad, ddaeth ar yr un pryd â lansio Cymru Greadigol ym mis Ionawr, a 22 o fusnesau cerddoriaeth ac ariannwyd at gyfanswm o £402 mil drwy'r gronfa cymorth i gerddoriaeth ar lawr gwlad, gafodd eu canmol am eu cyflymder a'u heffeithiolrwydd gan y diwydiant a rhanddeiliaid megis

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


yr Ymddiriedolaeth Lleoliadau Cerddoriaeth, a siaradodd yn bositif yn ystod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu am effaith COVID-19 ar y diwydiannau creadigol.

Cronfa Cymru Greadigol oedd y cymorth ariannol cyntaf oedd ar gael i fusnesau cerddoriaeth mewn unrhyw fan yn y DU, gyda'r cyfnod rhwng gwneud cais a derbyn yr arian ar gyfartaledd yn llai nag wythnos.

Dyma dystiolaeth bod cefnogi'r diwydiant cerddoriaeth yn flaenoriaeth i Cymru Greadigol. Rydym yn cydnabod yr amgylchiadau anodd ac ansicr iawn sy'n cael eu hwynebu gan unigolion a busnesau yn y sector ledled Cymru, ac rydym wedi ymrwymo i gynnig cymorth i'r diwydiant. Rydym wedi sefydlu grŵp cymorth COVID-19 i randdeiliaid cerddoriaeth i gasglu gwybodaeth am effaith y pandemig, ac i weithio gyda'n partneriaid i weld y ffordd orau o gynnig cymorth mewn ymateb i hyn.

Byddwn yn parhau i gysylltu â'r sector cerddoriaeth drwy ein grŵp cymorth rhanddeiliaid COVID i helpu i sicrhau bod ein lleoliadau cerddoriaeth yn ail-agor yn ddiogel cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

P-05-1013 Provide financial support for self-employed individuals within the Welsh live music industry - Correspondence from the petitioner to Committee, 21.09.20

I would like to add that it does not appear that any of the arts funding is getting to individual self-employed people in the music sector.

Eitem 2.3

P-05-1011 Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elfed Williams, ar ôl casglu cyfanswm o 2,772 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae posibilrwydd cryf y bydd yn rhaid parhau i gadw pellter cymdeithasol ar ôl mis Medi pan fydd y flwyddyn ysgol newydd yn dechrau. Ni fydd digon o le yn yr ysgolion i'r holl ddisgyblion ddychwelyd. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol ac undebau athrawon i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod pob plentyn yn cael yr addysg sydd ei hangen arnynt i wneud cynnydd addysgol. At y diben hwn, bydd angen cyfuniad o wersi yn yr ysgol a gwersi gartref a gaiff eu cyflwyno drwy ddsbarthiadau rhithwir.

Gwybodaeth Ychwanegol

Os bydd angen parhau i gadw pellter cymdeithasol ar ôl mis Medi, mae angen i Lywodraeth Cymru ddechrau datblygu strategaeth genedlaethol i addysgu ein plant ac i gynorthwyo'r plant hynny sy'n dilyn y mesurau gwarchod. Mae'n debygol mai dim ond traean o'r plant fydd yn gallu bod yn yr ysgol ar unrhyw un adeg, felly bydd angen cyfuniad o wersi i'w cyflwyno yn yr ysgol a gwersi rhithwir ar-lein i'w cyflwyno drwy Systemau Rheoli Dysgu shorturl.at/boB24

Bydd angen cynorthwyo athrawon, ysgolion ac awdurdodau lleol, a darparu cyllid i dalu am y gost o sefydlu platfformau dysgu, ymdrin â materion diogelu a hefyd i gyflwyno gwersi ar-lein a fydd yn galw am set sgiliau gwahanol i'r arfer. Ni all Llywodraeth Cymru ddiystyru'r broblem hon. Mae gwledydd fel Singapôr a Tsieina yn croesawu'r technolegau hyn oherwydd cyfyngiadau Covid ar ysgolion. Mae angen i Gymru fod ar flaen y gad yn y cyswllt hwn ac arwain y ffordd i sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Clwyd

- Gogledd Cymru

Parhad addysg yn ystod pandemig COVID-19

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020
Petitions Committee | 29 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13467-1

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi gwybodaeth ar gyfer trafodaethau'r Pwyllgor am ddwy ddeiseb: P-05-1011 a P-05-1015

Rhif y ddeiseb: P-05-1011

Teitl y ddeiseb: Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol

Geiriad y ddeiseb: Mae posibilrwydd cryf y bydd yn rhaid parhau i gadw pellter cymdeithasol ar ôl mis Medi pan fydd y flwyddyn ysgol newydd yn dechrau. Ni fydd digon o le yn yr ysgolion i'r holl ddisgyblion ddychwelyd. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol ac undebau athrawon i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod pob plentyn yn cael yr addysg sydd ei hangen arnynt i wneud cynnydd addysgol. At y diben hwn, bydd angen cyfuniad o wersi yn yr ysgol a gwersi gartref a gaiff eu cyflwyno drwy ddsbarthiadau rhithwir.

Gwybodaeth ychwanegol: Os bydd angen parhau i gadw pellter cymdeithasol ar ôl mis Medi, mae angen i Lywodraeth Cymru ddechrau datblygu strategaeth genedlaethol i addysgu ein plant ac i gynorthwyo'r plant hynny sy'n dilyn y mesurau gwarchod.

Mae'n debygol mai dim ond traean o'r plant fydd yn gallu bod yn yr ysgol ar unrhyw un adeg, felly bydd angen cyfuniad o wersi i'w cyflwyno yn yr ysgol a gwersi rhithwir ar-lein i'w cyflwyno drwy Systemau Rheoli Dysgu.

Bydd angen cynorthwyo athrawon, ysgolion ac awdurdodau lleol, a darparu cyllid i dalu am y gost o sefydlu platfformau dysgu, ymdrin â materion diogelu a hefyd i gyflwyno gwersi ar-lein a fydd yn galw am set sgiliau gwahanol i'r arfer.



Ni all Llywodraeth Cymru ddiystyru'r broblem hon. Mae gwledydd fel Singapôr a Tsieina yn croesawu'r technolegau hyn oherwydd cyfyngiadau Covid ar ysgolion. Mae angen i Gymru fod ar flaen y gad yn y cyswllt hwn ac arwain y ffordd i sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Rhif y ddeiseb: P-05-1015

Teitl y ddeiseb: Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol

Geiriad y ddeiseb:

Gyda'r system profi, tracio ac olrhain ar waith a halogi cymunedol yn isel iawn ledled Cymru, ni ddylid cau ysgolion eto yng Nghymru.

Mae hyn yn hanfodol ar gyfer lles meddwl ac addysg plant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu diogelu.

Gwybodaeth ychwanegol: Os yw unrhyw ysgol yn gorfod cau oherwydd ymlediad coronafeirws sylweddol, rhaid iddynt allu cynnal pob gwers ar-lein yn fyw drwy gynllun addysg wrth gefn. At hynny, rhaid iddynt hefyd sicrhau bod pob plentyn yn bresennol yn y sesiwn gofrestru a'r gwersi, gan fynd ar drywydd unrhyw absenoldeb yn yr un ffordd ag y gwneir hynny yn yr ysgol er mwyn sicrhau diogelwch plant a pharhad addysg.

*Rhaid i'r dull addysgu hwn ond parhau am gyfnod mor fyr â phosibl cyn i bob plentyn orfod mynychu'r ysgol yn ôl yr arfer.

Dylai ysgolion arbennig ar gyfer plant ADY yn cynnwys plant anabl beidio â chau, a dylent fod â chynllun wrth gefn i allu parhau ar agor hyd yn oed yn ystod cyfnodau clo lleol.

1. Crynodeb

- Ailagorodd ysgolion ledled Cymru i bob disgybl yn llawn amser ddechrau mis Medi 2020. Daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn ar 9 Gorffennaf 2020 yn dilyn cyngor gan ei Chell Cyngor Technegol.
- Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw cadw ysgolion ar agor lle y bo hynny'n bosibl. Os bydd amhariad ar ysgolion yn lleol yn y dyfodol, dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn 'datgan yn glir e[i] bod yn disgwyl i ysgolion wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau parhau dysgu'.
- Dywed Llywodraeth Cymru hefyd ei bod wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i ddatblygu canllawiau ar ddefnyddio modelau dysgu cyfunol a allai gynnwys addysg wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein.
- Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhywfaint o wybodaeth gefndirol berthnasol a lincs i ffynonellau a chyhoeddiadau allweddol.

2. Cyfnodau blaenorol pan gaewyd ysgolion a lleihawyd gweithrediadau: Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020

2.1. Dysgu o bell gartref

Caewyd ysgolion ar gyfer darparu addysg statudol ddydd Gwener 20 Mawrth 2020 ar sail iechyd cyhoeddus oherwydd COVID-19. Arhosodd ysgolion ar agor i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol nad oedd gofal plant diogel arall ar gael ar eu cyfer, fel rhan o 'ddiben newydd' i ysgolion, gan alluogi'r ymateb i COVID-19. Ar ôl iddynt gau i'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion, roedd disgwyl i ysgolion gefnogi addysg disgyblion gartref, drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein fel Hwb.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl blog ar 8 Ebrill sy'n rhoi mwy o wybodaeth am y cam hwn.

2.2. 'Dysgu cyfunol'

Ddydd Llun 29 Mehefin, dechreuwyd proses raddol, fesul cam, o ddychwelyd i'r ysgol. Diben hyn oedd i ddisgyblion 'Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi' ar gyfer yr hyn y mae Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, wedi rhybuddio y bydd 'yn debygol o fod yn dymor hydref hir a heriol iawn'.

Oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol, wrth ddychwelyd yn raddol i'r ysgol roedd tua thraean o'r disgyblion yn bresennol yn yr ysgol ar unrhyw adeg benodol, ac roedd disgyblion yn cael cyfle i fynd i'r ysgol ar o leiaf dri achlysur cyn gwyliau'r haf. Roedd y rhan fwyaf o'r addysgu a'r dysgu'n parhau i fod ar-lein fel rhan o fodel 'dysgu cyfunol'.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl blog ar 16 Mehefin sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y cam hwn.

3. Dychwelyd i'r ysgol: mis Medi 2020

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf y byddai'r holl ddisgyblion yn dychwelyd i ysgolion ar amserlen amser llawn o ddechrau'r tymor newydd ar 1 Medi 2020, yn ddibynnol ar yr amodau o ran ymlediad y coronafeirws. Daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn yn dilyn cyngor gan ei Chell Cyngor Technegol, a argymhellodd:

y dylai ysgolion yng Nghymru gynllunio i agor ym mis Medi, gyda 100% o ddisgyblion yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau

i ostwng yn gyson yn y gymuned, a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu staff a phlant.

Nododd y cyngor gwyddonol bwysigrwydd y **cynllun Profi, Orlhain, Diogelu** ac argymhellodd y dylai'r rhaglen olrhain cysylltiadau anelu at olrhain tuag 80 y cant o gysylltiadau, ac y dylid olrhain o leiaf 35 y cant ohonynt o fewn 24 awr.

Argymhellodd hefyd y dylai 'paratodau ar gyfer gallu addysgu hyd at 100 y cant o'r plant o bell fod yn eu lle bob amser, rhag ofn bydd angen gwneud hynny'. Mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor ynghylch deiseb P-05-1015 yn cyfeirio at y **posibilrwydd o amharu ymhellach ar addysgu yn lleol** pe bai'r amodau'n dirywio. **Mae dysgu cyfunol, felly, yn cael ei gadw i raddau helaeth fel cynllun wrth gefn posibl os oes angen.** Fodd bynnag, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn y **Cyfarfod Llawn ar 26 Awst** (paragraffau 13-20), mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ailagor ysgolion yn ôl y capasiti sydd ar gael i lacio'r cyfyngiadau:

...penderfynodd y Cabinet yr wythnos diwethaf i gadw'r rhan fwyaf o'r hyblygrwydd sydd ar gael i ni i helpu i ailagor ysgolion yng Nghymru yn ddiogel ac yn llwyddiannus o 1 Medi ymlaen....

3.1. Materion ymarferol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau gweithredol** i ysgolion ynglŷn â rheoli'r broses o ddisgyblion yn dychwelyd, ynghyd â **chanllawiau ar ddysgu**. Mae **adran Cwestiynau Cyffredin** ar ei gwefan hefyd.

Caniataodd Llywodraeth Cymru gyfnod o hyblygrwydd, gan gydnabod y bydd ysgolion o bosibl am ganolbwyntio ar grwpiau mewn blynyddoedd â blaenoriaeth, fel y rhai sy'n dechrau mewn ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai sydd yn y dosbarth derbyn. Roedd hyn yn rhoi amser, sef pythefnos cyntaf y tymor newydd, ar gyfer unrhyw waith cynllunio ac ad-drefnu, gyda disgyblion yn dychwelyd ar ddyddiadau gwahanol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi **addasu gofynion y cwricwlwm statudol** ac erbyn hyn mae gofyn i ysgolion wneud ymdrech resymol yn unig i addysgu'r cwricwlwm llawn. Mae'r addasiad hwn, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020, yn para hyd at 30 Medi 2020, a bydd y Gweinidog yn ei adolygu'n barhaus.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf ei bod yn llacio'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol ymhlith plant o dan 11 oed. **Dywedodd** fod hyn 'yn cyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol sy'n dangos bod y risg o drosglwyddo'r haint yn is yn y grŵp oedran hwn'. Fodd bynnag, ychwanegodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig iawn bod plant hŷn ac oedolion ifanc yn parhau i gadw pellter cymdeithasol gan fod lefel y risg yn wahanol yn y grwpiau oedran hyn.

Ar 26 Awst, gwnaeth Llywodraeth Cymru **ddiweddaru ei safbwynt ynglŷn â gorchuddion wyneb mewn ysgolion**. Argymhellir y dylid defnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion uwchradd ond nid mewn ysgolion cynradd. Er bod **cyngor gwyddonol** yn nodi nad yw gorchuddion wyneb yn debygol o wneud fawr o wahaniaeth mewn plant o dan 11 oed, fe'u hargymhellir ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd dros 11 oed mewn lleoliadau dan do lle na ellir cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion uwchradd. O **14 Medi**, rhaid gwisgo gorchuddion wyneb mewn siopau ac adeiladau dan do eraill.

4. Pwyso a mesur y risg o drosglwyddo'r feirws mewn ysgolion yn erbyn y niwed i blant a phobl ifanc o ganlyniad i beidio â mynd i'r ysgol

4.1. Cadw ysgolion ar agor lle y bo hynny'n bosibl

Fel y mae **llythyr blaenorol gan y Gweinidog** yn amlinellu, mae'n 'rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng y risgiau hyn a'r effeithiau negyddol ar iechyd wrth beidio â mynd i'r ysgol. Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru yn nodi:

Gan fod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn, mae'r cydbwysedd risg bellach yn gadarn o blaid bod plant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae peidio â mynd i'r ysgol yn niweidiol i ddatblygiad gwybyddol ac academaidd plant, ac i'w hiechyd a'u lles, yn enwedig ymysg plant difreintiedig; a, gall hyn gael effaith yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gwyddom fod cyflawniad academaidd is hefyd yn troi'n gostau economaidd tymor hir. Gwyddom hefyd fod cau ysgolion wedi effeithio ar allu rhai teuluoedd i weithio. Bydd anfon dysgwyr yn ôl i'r ysgol mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl yn arwain at fanteision cadarnhaol ar sawl agwedd, yn enwedig eu lles meddyliol ac emosiynol.

Ar 23 Awst, **cyhoeddodd y pedwar Prif Swyddog Meddygol ledled y DU ddatganiad ar y cyd** ynglŷn â'r dystiolaeth o risgiau a buddion i iechyd o ganlyniad i ailagor ysgolion a lleoliadau gofal plant. Dehonglwyd hyn fel rhywbeth sy'n ategu'r penderfyniad i ailagor ysgolion.

Mae llythyr y Gweinidog ynghylch deiseb P-05-1015 'Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol' yn ailadrodd **blaenoriaeth y Prif Weinidog i gadw ysgolion ar agor lle bo hynny'n bosibl**. Mae hefyd yn cydnabod y posibilrwydd o amharu ar addysgu yn lleol yn y dyfodol.

Ar adeg ysgrifennu'r papur, mae ysgolion wedi aros ar agor ym Mwrdeistref Sirol Caerffili er gwaethaf y **cyfyngiadau lleol** gyda Llywodraeth Cymru yn dweud mai 'cadw ysgolion/colegau ar agor os yw'n bosibl yw ein prif flaenoriaeth o hyd.'

4.2. Dysgu cyfunol wrth gefn

Mae llythyr y Gweinidog ynghylch deiseb P-05-1011 'Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol' yn ailadrodd y byddai ysgolion yn agor yn llawn i bob disgybl ym mis Medi. Mae'n cyfeirio at y canllawiau ar ddysgu yn nhymor yr hydref ac mae hefyd yn nodi:

Yn ychwanegol at hynny, mae **gwaith cynllunio'n cael ei gynnal i ymdopi ag amrediad o senarios a fyddai'n cynnwys cau ysgolion yn rhannol neu'n llwyr, os bydd angen inni wneud hynny o dan yr amgylchiadau penodol**. Mae swyddogion wedi bod yn cydweithio â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i ddatblygu canllawiau ar ddefnyddio modelau dysgu cyfunol **a allai gynnwys addysg wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein**.

Mae'r Consortia Rhanbarthol wedi datblygu **modelau ac enghreifftiau ar ddarparu dysgu cyfunol** hefyd. Mae'r rheini ar gael i'r holl Awdurdodau Lleol ac i bob ysgol i'w cefnogi i barhau i ddarparu dysgu cyson ac o safon i bob dysgwr yng Nghymru, pe byddai angen defnyddio'r llwybrau hynny. [ychwanegwyd y print trwm gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd i roi pwyslais]

Hefyd, mae llythyr y Gweinidog yn dweud mai awdurdodau lleol ac ysgolion sy'n gyfrifol o hyd am ddarparu dysgu a'u cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion eu dysgwyr.

5. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cynnal sawl sesiwn graffu gyda'r Gweinidog Addysg ynghylch yr amhariad ar addysg a pharhad addysg fel rhan o'i **ymchwiliad i effaith argyfwng COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru**.

Cynhaliwyd y sesiynau hyn ar **19 Mawrth, 28 Ebrill a 7 Gorffennaf**.

Hefyd, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi comisiynu **ymchwil ar ddulliau addysgu a dysgu o bell** gan Dr Sofya Lyakhova ym Mhrifysgol Abertawe dan **gynllun Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 Gwasanaeth Ymchwil y Senedd**.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref Petition P-05-1011
Ein cyf/Our ref KW/04526/20
Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@llyw.cymru

19 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Awst ynghylch Deiseb P-05-1011 Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol.

Ar 9 Gorffennaf cyhoeddais ein bwriad i sicrhau y bydd yr ysgolion ar agor i bob disgybl ym mis Medi. Mae'r bwriad hwnnw'n unol â'r cyngor a gafwyd gan Grŵp Cynghori Technegol Cymru, ac mae'n amodol ar weld gostyngiad cyson parhaus yn y nifer o achosion o COVID-19 yn y gymuned.

I helpu ysgolion i baratoi ar gyfer y senario honno ym mis Medi, mae canllawiau manwl wedi'u cyhoeddi:

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

Yn ychwanegol at hynny, mae gwaith cynllunio'n cael ei gynnal i ymdopi ag amrediad o senarios a fyddai'n cynnwys cau ysgolion yn rhannol neu'n llwyr, os bydd angen inni wneud hynny o dan yr amgylchiadau penodol. Mae swyddogion wedi bod yn cydweithio â rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i ddatblygu canllawiau ar ddefnyddio modelau dysgu cyfunol a allai gynnwys addysg wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein

<https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/datblygu-dulliau-i-geflogi-dysgu-o-bell/>

Mae'r Consortia Rhanbarthol wedi datblygu modelau ac enghreifftiau ar ddarparu dysgu cyfunol hefyd. Mae'r rheini ar gael i'r holl Awdurdodau Lleol ac i bob ysgol i'w cefnogi i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

barhau i ddarparu dysgu cyson ac o safon i bob dysgwr yng Nghymru, pe byddai angen defnyddio'r llwybrau hynny. Yr Awdurdodau Lleol a'r ysgolion sy'n parhau i fod yn gyfrifol am y ddarpariaeth dysgu, ac felly eu swyddogaeth nhw yw sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n ateb anghenion eu dysgwyr.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

P-05-1011 Virtual On-line teacher-led lessons to be provided for all school children, Correspondence – Petitioner to Committee, 21.09.20

I welcome the fact that all children are now back in school receiving full-time education.

This petition was started in response to the lack of education provided to our children especially in the early stages of the lockdown period.

Many children, whilst at home during this period, were sent work by their teachers to be completed. Quite often, but not in all cases, it appeared that very little supervision of this work was carried out with only limited feedback from teachers to children. There appeared to be a postcode lottery as to what support schools provided with some limited number of schools providing online classes to many schools refusing to provide any online classes whatsoever.

In many instances, safeguarding reasons were given as to why online lessons could not be provided but this did not appear to hamper private schools and schools in other countries being able to provide online lessons with their teacher within a few weeks of the lockdown being announced.

With the second wave of Covid 19 I welcome the fact that schools will be the last place to be locked down. But this does not mean that some year bubbles or probably even whole schools might have to be closed if Covid increases dramatically in some areas. Our children have already lost nearly six months of their education with, as yet, unknown implications as to their future career. It is therefore imperative that every effort is made to ensure that each child receives the education they deserve even if they have to self isolate for whatever reason be this on an individual, year or whole school basis. If a child has to stay at home due to Covid then they should be provided with online lessons until they can return to school.

Diolch / Thank you

Eitem 2.4

P-05-1015 Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Christopher Hughes, ar ôl casglu cyfanswm o 484 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Gyda'r system profi, tracio ac olrhain ar waith a halogi cymunedol yn isel iawn ledled Cymru, ni ddylid cau ysgolion eto yng Nghymru.

Mae hyn yn hanfodol ar gyfer lles meddwl ac addysg plant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu diogelu.

Gwybodaeth Ychwanegol

Os yw unrhyw ysgol yn gorfod cau oherwydd ymlediad coronafeirws sylweddol, rhaid iddynt allu cynnal pob gwers ar-lein yn fyw drwy gynllun addysg wrth gefn. At hynny, rhaid iddynt hefyd sicrhau bod pob plentyn yn bresennol yn y sesiwn gofrestru a'r gwersi, gan fynd ar drywydd unrhyw absenoldeb yn yr un ffordd ag y gwneir hynny yn yr ysgol er mwyn sicrhau diogelwch plant a pharhad addysg.

Rhaid i'r dull addysgu hwn ond parhau am gyfnod mor fyr â phosibl cyn i bob plentyn orfod mynychu'r ysgol yn ôl yr arfer.

Dylai ysgolion arbennig ar gyfer plant ADY yn cynnwys plant anabl beidio â chau, a dylent fod â chynllun wrth gefn i allu parhau ar agor hyd yn oed yn ystod cyfnodau clo lleol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru

Parhad addysg yn ystod pandemig COVID-19

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020
Petitions Committee | 29 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13467-1

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi gwybodaeth ar gyfer trafodaethau'r Pwyllgor am ddwy ddeiseb: P-05-1011 a P-05-1015

Rhif y ddeiseb: P-05-1011

Teitl y ddeiseb: Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol

Geiriad y ddeiseb: Mae posibilrwydd cryf y bydd yn rhaid parhau i gadw pellter cymdeithasol ar ôl mis Medi pan fydd y flwyddyn ysgol newydd yn dechrau. Ni fydd digon o le yn yr ysgolion i'r holl ddisgyblion ddychwelyd. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol ac undebau athrawon i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod pob plentyn yn cael yr addysg sydd ei hangen arnynt i wneud cynnydd addysgol. At y diben hwn, bydd angen cyfuniad o wersi yn yr ysgol a gwersi gartref a gaiff eu cyflwyno drwy ddsbarthiadau rhithwir.

Gwybodaeth ychwanegol: Os bydd angen parhau i gadw pellter cymdeithasol ar ôl mis Medi, mae angen i Lywodraeth Cymru ddechrau datblygu strategaeth genedlaethol i addysgu ein plant ac i gynorthwyo'r plant hynny sy'n dilyn y mesurau gwarchod.

Mae'n debygol mai dim ond traean o'r plant fydd yn gallu bod yn yr ysgol ar unrhyw un adeg, felly bydd angen cyfuniad o wersi i'w cyflwyno yn yr ysgol a gwersi rhithwir ar-lein i'w cyflwyno drwy Systemau Rheoli Dysgu.

Bydd angen cynorthwyo athrawon, ysgolion ac awdurdodau lleol, a darparu cyllid i dalu am y gost o sefydlu platfformau dysgu, ymdrin â materion diogelu a hefyd i gyflwyno gwersi ar-lein a fydd yn galw am set sgiliau gwahanol i'r arfer.



Ni all Llywodraeth Cymru ddiystyru'r broblem hon. Mae gwledydd fel Singapôr a Tsieina yn croesawu'r technolegau hyn oherwydd cyfyngiadau Covid ar ysgolion. Mae angen i Gymru fod ar flaen y gad yn y cyswllt hwn ac arwain y ffordd i sicrhau bod ein plant yn cael yr addysg orau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Rhif y ddeiseb: P-05-1015

Teitl y ddeiseb: Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol

Geiriad y ddeiseb:

Gyda'r system profi, tracio ac olrhain ar waith a halogi cymunedol yn isel iawn ledled Cymru, ni ddylid cau ysgolion eto yng Nghymru.

Mae hyn yn hanfodol ar gyfer lles meddwl ac addysg plant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu diogelu.

Gwybodaeth ychwanegol: Os yw unrhyw ysgol yn gorfod cau oherwydd ymlediad coronafeirws sylweddol, rhaid iddynt allu cynnal pob gwers ar-lein yn fyw drwy gynllun addysg wrth gefn. At hynny, rhaid iddynt hefyd sicrhau bod pob plentyn yn bresennol yn y sesiwn gofrestru a'r gwersi, gan fynd ar drywydd unrhyw absenoldeb yn yr un ffordd ag y gwneir hynny yn yr ysgol er mwyn sicrhau diogelwch plant a pharhad addysg.

*Rhaid i'r dull addysgu hwn ond parhau am gyfnod mor fyr â phosibl cyn i bob plentyn orfod mynychu'r ysgol yn ôl yr arfer.

Dylai ysgolion arbennig ar gyfer plant ADY yn cynnwys plant anabl beidio â chau, a dylent fod â chynllun wrth gefn i allu parhau ar agor hyd yn oed yn ystod cyfnodau clo lleol.

1. Crynodeb

- Ailagorodd ysgolion ledled Cymru i bob disgybl yn llawn amser ddechrau mis Medi 2020. Daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn ar 9 Gorffennaf 2020 yn dilyn cyngor gan ei Chell Cyngor Technegol.
- Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw cadw ysgolion ar agor lle y bo hynny'n bosibl. Os bydd amhariad ar ysgolion yn lleol yn y dyfodol, dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn 'datgan yn glir e[i] bod yn disgwyl i ysgolion wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau parhau dysgu'.
- Dywed Llywodraeth Cymru hefyd ei bod wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i ddatblygu canllawiau ar ddefnyddio modelau dysgu cyfunol a allai gynnwys addysg wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein.
- Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhywfaint o wybodaeth gefndirol berthnasol a lincs i ffynonellau a chyhoeddiadau allweddol.

2. Cyfnodau blaenorol pan gaewyd ysgolion a lleihawyd gweithrediadau: Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020

2.1. Dysgu o bell gartref

Caewyd ysgolion ar gyfer darparu addysg statudol ddydd Gwener 20 Mawrth 2020 ar sail iechyd cyhoeddus oherwydd COVID-19. Arhosodd ysgolion ar agor i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol nad oedd gofal plant diogel arall ar gael ar eu cyfer, fel rhan o 'ddiben newydd' i ysgolion, gan alluogi'r ymateb i COVID-19. Ar ôl iddynt gau i'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion, roedd disgwyl i ysgolion gefnogi addysg disgyblion gartref, drwy ddefnyddio adnoddau ar-lein fel Hwb.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl blog ar 8 Ebrill sy'n rhoi mwy o wybodaeth am y cam hwn.

2.2. 'Dysgu cyfunol'

Ddydd Llun 29 Mehefin, dechreuwyd proses raddol, fesul cam, o ddychwelyd i'r ysgol. Diben hyn oedd i ddisgyblion 'Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi' ar gyfer yr hyn y mae Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, wedi rhybuddio y bydd 'yn debygol o fod yn dymor hydref hir a heriol iawn'.

Oherwydd yr angen i gadw pellter cymdeithasol, wrth ddychwelyd yn raddol i'r ysgol roedd tua thraean o'r disgyblion yn bresennol yn yr ysgol ar unrhyw adeg benodol, ac roedd disgyblion yn cael cyfle i fynd i'r ysgol ar o leiaf dri achlysur cyn gwyliau'r haf. Roedd y rhan fwyaf o'r addysgu a'r dysgu'n parhau i fod ar-lein fel rhan o fodel 'dysgu cyfunol'.

Cyhoeddodd Ymchwil y Senedd erthygl blog ar 16 Mehefin sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y cam hwn.

3. Dychwelyd i'r ysgol: mis Medi 2020

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf y byddai'r holl ddisgyblion yn dychwelyd i ysgolion ar amserlen amser llawn o ddechrau'r tymor newydd ar 1 Medi 2020, yn ddibynnol ar yr amodau o ran ymlediad y coronafeirws. Daeth Llywodraeth Cymru i'r penderfyniad hwn yn dilyn cyngor gan ei Chell Cyngor Technegol, a argymhellodd:

y dylai ysgolion yng Nghymru gynllunio i agor ym mis Medi, gyda 100% o ddisgyblion yn gorfforol bresennol ar safleoedd ysgolion, cyn belled â bod lefelau COVID-19 yn parhau

i ostwng yn gyson yn y gymuned, a bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu staff a phlant.

Nododd y cyngor gwyddonol bwysigrwydd y **cynllun Profi, Orlhain, Diogelu** ac argymhellodd y dylai'r rhaglen olrhain cysylltiadau anelu at olrhain tuag 80 y cant o gysylltiadau, ac y dylid olrhain o leiaf 35 y cant ohonynt o fewn 24 awr.

Argymhellodd hefyd y dylai 'paratodau ar gyfer gallu addysgu hyd at 100 y cant o'r plant o bell fod yn eu lle bob amser, rhag ofn bydd angen gwneud hynny'. Mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor ynghylch deiseb P-05-1015 yn cyfeirio at y **posibilrwydd o amharu ymhellach ar addysgu yn lleol** pe bai'r amodau'n dirywio. **Mae dysgu cyfunol, felly, yn cael ei gadw i raddau helaeth fel cynllun wrth gefn posibl os oes angen.** Fodd bynnag, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn y **Cyfarfod Llawn ar 26 Awst** (paragraffau 13-20), mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ailagor ysgolion yn ôl y capasiti sydd ar gael i lacio'r cyfyngiadau:

...penderfynodd y Cabinet yr wythnos diwethaf i gadw'r rhan fwyaf o'r hyblygrwydd sydd ar gael i ni i helpu i ailagor ysgolion yng Nghymru yn ddiogel ac yn llwyddiannus o 1 Medi ymlaen....

3.1. Materion ymarferol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **canllawiau gweithredol** i ysgolion ynglŷn â rheoli'r broses o ddisgyblion yn dychwelyd, ynghyd â **chanllawiau ar ddysgu**. Mae **adran Cwestiynau Cyffredin** ar ei gwefan hefyd.

Caniataodd Llywodraeth Cymru gyfnod o hyblygrwydd, gan gydnabod y bydd ysgolion o bosibl am ganolbwyntio ar grwpiau mewn blynyddoedd â blaenoriaeth, fel y rhai sy'n dechrau mewn ysgolion uwchradd, y rhai sy'n sefyll arholiadau yr haf nesaf neu'r rhai sydd yn y dosbarth derbyn. Roedd hyn yn rhoi amser, sef pythefnos cyntaf y tymor newydd, ar gyfer unrhyw waith cynllunio ac ad-drefnu, gyda disgyblion yn dychwelyd ar ddyddiadau gwahanol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi **addasu gofynion y cwricwlwm statudol** ac erbyn hyn mae gofyn i ysgolion wneud ymdrech resymol yn unig i addysgu'r cwricwlwm llawn. Mae'r addasiad hwn, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020, yn para hyd at 30 Medi 2020, a bydd y Gweinidog yn ei adolygu'n barhaus.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 31 Gorffennaf ei bod yn llacio'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol ymhlith plant o dan 11 oed. **Dywedodd** fod hyn 'yn cyd-fynd â'r dystiolaeth wyddonol sy'n dangos bod y risg o drosglwyddo'r haint yn is yn y grŵp oedran hwn'. Fodd bynnag, ychwanegodd Llywodraeth Cymru ei bod yn bwysig iawn bod plant hŷn ac oedolion ifanc yn parhau i gadw pellter cymdeithasol gan fod lefel y risg yn wahanol yn y grwpiau oedran hyn.

Ar 26 Awst, gwnaeth Llywodraeth Cymru **ddiweddaru ei safbwynt ynglŷn â gorchuddion wyneb mewn ysgolion**. Argymhellir y dylid defnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion uwchradd ond nid mewn ysgolion cynradd. Er bod **cyngor gwyddonol** yn nodi nad yw gorchuddion wyneb yn debygol o wneud fawr o wahaniaeth mewn plant o dan 11 oed, fe'u hargymhellir ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd dros 11 oed mewn lleoliadau dan do lle na ellir cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion uwchradd. O **14 Medi**, rhaid gwisgo gorchuddion wyneb mewn siopau ac adeiladau dan do eraill.

4. Pwyso a mesur y risg o drosglwyddo'r feirws mewn ysgolion yn erbyn y niwed i blant a phobl ifanc o ganlyniad i beidio â mynd i'r ysgol

4.1. Cadw ysgolion ar agor lle y bo hynny'n bosibl

Fel y mae **llythyr blaenorol gan y Gweinidog** yn amlinellu, mae'n 'rhaid cael cydbwysedd gofalus rhwng y risgiau hyn a'r effeithiau negyddol ar iechyd wrth beidio â mynd i'r ysgol. Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru yn nodi:

Gan fod y sefyllfa wedi gwella erbyn hyn, mae'r cydbwysedd risg bellach yn gadarn o blaid bod plant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae peidio â mynd i'r ysgol yn niweidiol i ddatblygiad gwybyddol ac academaidd plant, ac i'w hiechyd a'u lles, yn enwedig ymysg plant difreintiedig; a, gall hyn gael effaith yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gwyddom fod cyflawniad academaidd is hefyd yn troi'n gostau economaidd tymor hir. Gwyddom hefyd fod cau ysgolion wedi effeithio ar allu rhai teuluoedd i weithio. Bydd anfon dysgwyr yn ôl i'r ysgol mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl yn arwain at fanteision cadarnhaol ar sawl agwedd, yn enwedig eu lles meddyliol ac emosiynol.

Ar 23 Awst, **cyhoeddodd y pedwar Prif Swyddog Meddygol ledled y DU ddatganiad ar y cyd** ynglŷn â'r dystiolaeth o risgiau a buddion i iechyd o ganlyniad i ailagor ysgolion a lleoliadau gofal plant. Dehonglwyd hyn fel rhywbeth sy'n ategu'r penderfyniad i ailagor ysgolion.

Mae llythyr y Gweinidog ynghylch deiseb P-05-1015 'Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol' yn ailadrodd **blaenoriaeth y Prif Weinidog i gadw ysgolion ar agor lle bo hynny'n bosibl**. Mae hefyd yn cydnabod y posibilrwydd o amharu ar addysgu yn lleol yn y dyfodol.

Ar adeg ysgrifennu'r papur, mae ysgolion wedi aros ar agor ym Mwrdeistref Sirol Caerffili er gwaethaf y **cyfyngiadau lleol** gyda Llywodraeth Cymru yn dweud mai 'cadw ysgolion/colegau ar agor os yw'n bosibl yw ein prif flaenoriaeth o hyd.'

4.2. Dysgu cyfunol wrth gefn

Mae llythyr y Gweinidog ynghylch deiseb P-05-1011 ‘Gwersi rhithwir ar-lein dan arweiniad athrawon ar gyfer pob plentyn ysgol’ yn ailadrodd y byddai ysgolion yn agor yn llawn i bob disgybl ym mis Medi. Mae’n cyfeirio at y canllawiau ar ddysgu yn nhymor yr hydref ac mae hefyd yn nodi:

Yn ychwanegol at hynny, mae **gwaith cynllunio’n cael ei gynnal i ymdopi ag amrediad o senarios a fyddai’n cynnwys cau ysgolion yn rhannol neu’n llwyr, os bydd angen inni wneud hynny o dan yr amgylchiadau penodol**. Mae swyddogion wedi bod yn cydweithio â rhanddeiliaid o bob rhan o’r sector i ddatblygu canllawiau ar ddefnyddio modelau dysgu cyfunol **a allai gynnwys addysg wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein**.

Mae’r Consortia Rhanbarthol wedi datblygu **modelau ac enghreifftiau ar ddarparu dysgu cyfunol** hefyd. Mae’r rheini ar gael i’r holl Awdurdodau Lleol ac i bob ysgol i’w cefnogi i barhau i ddarparu dysgu cyson ac o safon i bob dysgwr yng Nghymru, pe byddai angen defnyddio’r llwybrau hynny. [ychwanegwyd y print trwm gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd i roi pwyslais]

Hefyd, mae llythyr y Gweinidog yn dweud mai awdurdodau lleol ac ysgolion sy’n gyfrifol o hyd am ddarparu dysgu a’u cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion eu dysgwyr.

5. Camau gweithredu Senedd Cymru

Mae’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cynnal sawl sesiwn graffu gyda’r Gweinidog Addysg ynghylch yr amhariad ar addysg a pharhad addysg fel rhan o’i **ymchwiliad i effaith argyfwng COVID-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru**.

Cynhaliwyd y sesiynau hyn ar **19 Mawrth, 28 Ebrill a 7 Gorffennaf**.

Hefyd, mae’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi comisiynu **ymchwil ar ddulliau addysgu a dysgu o bell** gan Dr Sofya Lyakhova ym Mhrifysgol Abertawe dan **gynllun Cofrestr Arbenigwyr COVID-19 Gwasanaeth Ymchwil y Senedd**.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw’r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na’u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref Deiseb P-05-1015
Ein cyf/Our ref KW/04527/20
Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Busnes.Pwyllgorau.Llywodraeth@llyw.cymru

21 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ddiweddar ynghylch deiseb yn erbyn cau ysgolion os bydd achosion newydd o COVID-19.

Ers y penderfyniad gwreiddiol i osod cyfyngiadau cenedlaethol ar symudiadau pobl, mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud i adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod clo. Mae nifer o strategaethau bellach yn eu lle ac rydym yn gwybod llawer mwy nawr am ba mor gyffredin yw COVID-19 yn ein cymdeithas, felly nid ydym yn rhagweld y byddai angen cyfyngiadau cenedlaethol eto o reidrwydd. Mae Cynllun Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glifydau (2020) wedi darparu cyngor penodol ynghylch ymchwilio a rheoli clystyrau ac achosion unigol o COVID-19 mewn lleoliadau addysg; mae'r canllawiau hyn, ynghyd â'r Canllawiau Gweithredol diweddaraf a gyhoeddwyd ar 11 Awst, yn darparu proses i ysgolion ei dilyn os bydd achosion yn codi mewn ysgol, a fydd yn allweddol i reoli achosion pendant o COVID-19 yng nghymuned yr ysgol. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi dweud yn glir mai ei flaenoriaeth yw cadw ysgolion ar agor os yw hynny'n bosibl.

Rydym yn cydnabod ei bod yn bosibl y bydd rhagor o amharu ar ysgolion ar lefel leol yn sgil y pandemig. Rydym yn dweud yn glir bod rhaid i ysgolion ac Awdurdodau Lleol sicrhau bod cynlluniau yn eu lle i ymateb i'r amharu hwn ar sail amgylchiadau lleol, ac y dylai'r cynlluniau hyn gynnwys ystyried yr effaith ar unigolion a grwpiau, cau ysgolion am gyfnod neu gau grwpiau o ysgolion fel clwstwr lleol neu bob ysgol uwchradd sy'n gwasanaethu cymuned.

Wrth i fis Medi agosáu, byddwn yn datgan yn glir ein bod yn disgwyl i ysgolion wneud popeth yn eu gallu i sicrhau parhad dysgu os bydd unrhyw amharu yn y dyfodol. Disgwylir i ysgolion gyfeirio yn eu cynlluniau at hawl disgyblion i oriau cyswllt a chymorth, nodi pa mor aml y bydd sesiynau addysgu a dysgu yn cael eu cynnal, ac am ba hyd, a dweud faint o amser y disgwylir i ddisgyblion ei dreulio yn astudio'n annibynnol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 80
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn ymwybodol bod consortia rhanbarthol wedi gwneud cryn dipyn o waith er mwyn sicrhau bod canllawiau a dysgu proffesiynol ar gael i ysgolion i'w helpu i ddysgu o bell neu ddarparu dysgu cyfunol, ac mae Hwb bellach yn cynnwys cryn dipyn o adnoddau i'w defnyddio gan ysgolion wrth ddatblygu eu cynlluniau.

Nid wyf wedi fy argyhoeddi y byddai gorfodi ysgolion arbennig i aros ar agor yn ystod unrhyw gyfnod clo o reidrwydd yn synhwyrol nac yn ymarferol, ond rwy'n credu bod rhinwedd mewn datblygu cynlluniau wrth gefn i wella gallu ysgolion i ymateb i unrhyw gyfyngiadau symud cenedlaethol neu leol.


Ar 17 Awst, cyhoeddwyd 'Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais'. Mae'r canllawiau hyn yn ategu'r 'Canllawiau gweithredol i ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref' a'r 'Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref' ac yn darparu cyngor penodol i ddysgwyr agored i niwed a dan anfantais, gan gynnwys dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS).

Mae'r canllawiau yn edrych ar amrywiol sefyllfaoedd ac yn gosod disgwyliadau ar awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau. Yn ogystal â disgwyliadau ynghylch cynllunio i ailgydio dysgwyr agored i niwed a difreintiedig yn eu haddysg o fis Medi ymlaen, mae'r canllawiau yn dweud yn glir y dylid gwneud cynlluniau wrth gefn i baratoi ar gyfer rhagor o amharu ar addysg os bydd tonnau eraill o'r feirws yn codi yn y dyfodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau dysgu galwedigaethol, nad oes modd eu haddasu'n rhwydd o bosibl i fodelau dysgu o bell neu ddysgu cyfunol.

Mae'r canllawiau yn dweud yn glir y dylid cynllunio a darparu cymorth ar sail anghenion dysgwyr unigol, gan ystyried effaith cau ysgolion a lleoliadau ar les ac addysg ehangach y dysgwyr. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth am or-bryder, materion iechyd meddwl ac ymddygiad heriol, a allai fod yn berthnasol yng nghyd-destun helpu dysgwyr i integreiddio ac ailgydio yn eu haddysg.

Gobeithio bydd hyn yn tawelu meddyliau bod cryn dipyn o waith yn mynd rhagddo i sicrhau y bydd cyn lleied â phosibl o darfu ar ddysgwyr os bydd achosion pellach o COVID-19 yn arwain at gau ysgolion neu gyfyngu ar eu gweithrediadau.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**P-05-1015 Categorise schools as critical infrastructure, Correspondence –
Petitioner to Committee, 22.09.20**

Schools must not close again due to COVID19 except in severe circumstances.

Emphasis on SEN schools, many of these children despite being entitled to school provision during the lockdown, they were made to remain home by schools and local education authorities. This had a very negative affect on these children, not all, but many.

ALL children deserve normality. We are aware the virus does not affect children in the same way as adults and teaching is believed to be the safest profession in regards to COVID19.

We need more teaching staff available to cover for any ill staff/staff worried about working.

Children should not be sent home from school and made to be tested when they have a common cold. Many schools/LEAs are having all poorly children sent home and tested which will ofcourse cause upset and disruption.

School is vital for the wellbeing and futures of our children, whilst essential to allow families to work and keep the economy going. Children have suffered enough

P-05-1017 Caniatáu i ddisgyblion wisgo mygydau ym mhob rhan o safle'r ysgol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan John Zhao, ar ôl casglu cyfanswm o 97 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Rwy'n dechrau'r ddeiseb hon i alw ar y Senedd i wneud i ysgolion adael i ddisgyblion wisgo mygydau wyneb ar bob adeg (hyd yn oed yn yr ystafell ddosbarth). Gall mygydau/gorchuddion wyneb leihau'n sylweddol y gyfradd trosglwyddiadau fel y dangoswyd mewn gwledydd eraill ledled y byd. Os yw gwisgo mwgwd wyneb yn orfodol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn Lloegr, pam na ddylai disgyblion wisgo mygydau mewn amgylchedd caeëdig fel ystafell ddosbarth lle y mae mwy o bobl sy'n treulio amser hir yno??

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae Ysgol Friars wedi gwahardd defnyddio mygydau a gorchuddion wyneb mewn ystafelloedd dosbarth.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Arfon
- Gogledd Cymru

Gorchuddion wyneb mewn ysgolion

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020
Petitions Committee | 29 September 2020

Reference: RS20/13831-1

Rhif y ddeiseb: P-05-1017

Teitl y ddeiseb: Caniatáu i ddisgyblion wisgo mygydau ym mhob rhan o safle'r ysgol

Geiriad y ddeiseb: Rwy'n dechrau'r ddeiseb hon i alw ar y Senedd i wneud i ysgolion adael i ddisgyblion wisgo mygydau wyneb ar bob adeg (hyd yn oed yn yr ystafell ddosbarth). Gall mygydau/gorchuddion wyneb leihau'n sylweddol y gyfradd trosglwyddiadau fel y dangoswyd mewn gwledydd eraill ledled y byd. Os yw gwisgo mwgwd wyneb yn orfodol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn Lloegr, pam na ddylai disgyblion wisgo mygydau mewn amgylchedd caeedig fel ystafell ddosbarth lle y mae mwy o bobl sy'n treulio amser hir yno??

Gwybodaeth ychwanegol: Mae Ysgol Friars wedi gwahardd defnyddio mygydau a gorchuddion wyneb mewn ystafelloedd dosbarth.



1. Crynodeb

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei safbwynt ynglŷn â gorchuddion wyneb mewn ysgolion ar 26 Awst 2020, a gorchuddion wyneb yn y gymdeithas yn fwy cyffredinol ar 11 Medi 2020.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a chynghorir Aelodau'r Pwyllgor i gyfeirio at y fersiynau diweddaraf sydd ar gael.

2. Gorchuddion wyneb mewn ysgolion

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddiweddarau ei pholisi ynghylch gorchuddion wyneb mewn ysgolion ar 26 Awst 2020.

Dyweddodd Llywodraeth Cymru er bod cyngor gwyddonol yn nodi nad yw gorchuddion wyneb yn debygol o wneud fawr o wahaniaeth mewn plant o dan 11 oed, **fe'u hargymhellir ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd dros 11 oed mewn lleoliadau dan do lle na ellir cadw pellter cymdeithasol, gan gynnwys ysgolion uwchradd.**

Felly, argymhellir y dylid defnyddio gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cymunedol (coridorau ac ati ond nid o reidrwydd ystafelloedd dosbarth) mewn ysgolion uwchradd ond nid mewn ysgolion cynradd.

Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru i ysgolion (a ddiweddarwyd ar 2 Medi) yn nodi:

Mae'r Prif Swyddog Meddygol yn argymhell, ond nid yw'n mandadu, y dylid defnyddio gorchuddion wyneb yn unol ag asesiadau risg mewn ysgolion uwchradd yn ardaloedd cymunedol yr ysgol, fel coridorau lle mae cynllun yr adeilad yn golygu na all grwpiau cyswllt aros ar wahân i'r un graddau a lle mae'n anodd cadw at fesurau rheoli eraill. Bydd hwn yn benderfyniad lleol i'r ysgol neu'r lleoliad gan ddibynnu ar eu hasesiad o'r risg ac yng nghyd-destun yr amgylchiadau lleol.

Os bydd disgybl yn dymuno gwisgo gorchudd wyneb er nad yw'n ofynnol nac yn cael ei argymhell, mae llythyr y Gweinidog Addysg ynghylch deiseb P-05-1017 yn nodi **nad yw Llywodraeth Cymru yn gwahardd yn benodol defnyddio gorchuddion wyneb mewn ystafelloedd dosbarth**. Dywed y Gweinidog y dylai'r disgybl neu ei rieni drafod y mater gyda'r ysgol – byddai Llywodraeth Cymru am i'r ysgol ddefnyddio **'dull pragmatig a chynhwysol'** yn yr achos hwn.

Gofynnwyd i'r Gweinidog am orchuddion wyneb mewn ysgolion yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Medi a dywedodd:

O ran mygydau, mae'r canllawiau ar fygydau yn gwbl glir. Ein disgwyliadau ni o ran ysgolion, a'n canllawiau gweithredu ni yw, y byddan nhw'n cymryd camau i gyfyngu ar gyswllt rhwng grwpiau o ddisgyblion. Ac mae ysgolion yn gwneud hyn mewn ffordd amrywiol: er enghraifft, parthau; systemau un ffordd; dechrau'r diwrnod fesul cam; amseroedd egwyl fesul cam, amseroedd cinio a threfniadau ar ddiwedd diwrnod ysgol. Pan fydd yr holl bethau hyn wedi eu gwneud—oherwydd mae'n rhaid gwneud y pethau hynny'n gyntaf—**pan fydd yr holl bethau hynny wedi eu gwneud a'i bod hi'n amhosibl wedyn gadw swigod o ddisgyblion ar wahân mewn manau cymunedol, dyna pryd y dylid gwisgo mygydau. Ac mae'n well gwneud hynny ar sail asesu risg unigol mewn ysgol unigol, oherwydd mae ein hysgolion ni'n amrywio'n fawr o ran maint a chynllun.** Mae yna ysgolion uwchradd yn fy etholaeth i a fyddai'n edrych fel ysgolion cynradd bach yng nghyd-destun Caerdydd. Mae rhai o'n hysgolion mewn adeiladau ysgol gwych yr unfed ganrif ar hugain, ac yna mae rhai o'n hysgolion yn dal i fod, pe byddwn i'n onest, mewn adeiladau o oes Fictoria, ac felly fe fydd eich gallu chi i gyflawni'r pethau hyn yn eich ysgol chi'n amrywio o ysgol i ysgol. **Os na allwch gadw grwpiau o ddisgyblion 2m oddi wrth ei gilydd mewn manau cymunedol, yna fe ddylen nhw wisgo mygydau, ac rwy'n siŵr fod trefnu hynny o fewn gallu'r penaeithiaid sy'n rhedeg ein hysgolion ni.** Maent yn ymdrin yn feunyddiol â phroblemau sy'n llawer mwy cymhleth na gweithio allan sut i gadw plant 2m ar wahân mewn coridor. [ychwanegwyd y print trwm gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd i roi pwyslais]

3. Gorchuddion wyneb yn y gymdeithas yn fwy cyffredinol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ar 11 Medi** y byddai'n rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob man cyhoeddus dan do o 14 Medi ymlaen, fel siopau a chanolfannau siopa, siopau trin gwallt a champfeydd. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw pan fydd person y tu mewn i le bwyta neu yfed (er enghraifft, caffis, bwyta a thafarndai).

Nid yw'n ofynnol i blant o dan 11 oed wisgo gorchuddion wyneb. Y rheswm am hyn yw bod y **cyngor gwyddono!** yn nodi nad yw gorchuddion wyneb yn debygol o wneud fawr o wahaniaeth mewn plant o dan 11 oed.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-1017
Ein cyf/Our ref KW/04936/20
Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@llyw.cymru

25 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Awst ynghylch Deiseb P-05-1017, sef caniatáu i ddisgyblion wisgo mygydau ym mhob rhan o safle'r ysgol.

Rwy'n gwerthfawrogi'r cyfle i rannu fy marn â'r Pwyllgor Deisebau ar y mater hwn cyn i'r Pwyllgor ystyried y ddeiseb yn ffurfiol.

Mae cryn drafod wedi bod yn ystod y pandemig ar ddefnyddio gorchuddion wyneb a chyfarpar diogelu personol yn fwy cyffredinol. Rwy'n deall bod gan lawer o bobl farn gref ar faterion fel a ddylid gwisgo gorchuddion wyneb ac o dan ba amgylchiadau. Mae'r ddealltwriaeth o'r feirws ledled y byd wedi gwella drwy gydol y cyfnod hwn, ac o'r herwydd, rhaid i ni fod yn effro a gwrando ar y cyngor meddygol a gwyddonol wrth osod ein polisi. Rhaid i ni hefyd fod yn barod i adolygu'r sefyllfa wrth i'n dealltwriaeth o'r feirws ddatblygu.

Mae cyngor meddygol a gwyddonol diweddaraf y Gell Cyngor Technegol i Lywodraeth Cymru yn ategu barn y Prif Swyddog Meddygol, sef bod tystiolaeth gref i ddangos mai'r ffordd fwyaf effeithiol o atal lledaeniad y coronafeirws yw cadw pellter cymdeithasol, cadw'r dwylo'n lân a chadw at arferion glanweithdra. Mae'n canllawiau i ysgolion a lleoliadau yn nodi, felly, nad oes angen defnyddio cyfarpar diogelu personol wrth ymgymryd â gweithgareddau addysgiadol arferol mewn ystafelloedd dosbarth a lleoliadau ysgolion.

Mae ein [canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref](#), a ddiweddarwyd ar 11 Awst, yn cynnwys cyngor ar adegau lle gallai fod angen cyfarpar diogelu personol, er enghraifft, pan fo amheuaeth bod achos o COVID-19, neu pan fo staff yn gorfod gofalu'n agos am rhywun.

Dylai defnydd o gyfarpar diogelu personol gan staff o fewn lleoliadau addysg fod yn seiliedig ar asesiad clir o'r risg, gan ystyried pob lleoliad ar wahân, ar y cyd ag anghenion dysgwyr

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

unigol. Rydym yn disgwyl i ysgolion a lleoliadau drefnu eu hamgylchedd a gweithredu i sicrhau y gellir cadw at y mesurau ymbellhau cymdeithasol drwy gydol diwrnod arferol.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwahardd defnyddio gorchuddion wyneb mewn ystafelloedd dosbarth yn benodol. Mewn achosion lle mae'r dysgwyr, neu deulu'r dysgwyr, yn teimlo'n gryf y dylai'r plentyn wisgo gorchudd wyneb yn yr ystafell ddosbarth, byddem yn eu hannog i drafod hynny gyda'r ysgol, gan nodi unrhyw beth a allai ofyn am ystyriaeth arbennig fel rhan o asesiad risg yr ysgol. Wrth wneud penderfyniad ar lefel leol, rydym yn dymuno gweld ysgolion yn ymdrin â hyn yn bragmataidd a chynhwysol.

Mae ystyried lles dysgwyr yn hanfodol i unrhyw ystyriaethau ynghylch a ddylai staff neu ddysgwyr hŷn wisgo gorchuddion wyneb. Mae'n canllawiau hefyd yn nodi'n glir na ddylai unrhyw un nad yw'n gallu ymdrin â gorchuddion wyneb yn unol â chanllawiau, er enghraifft, dysgwyr iau a rhai dysgwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig neu anabledau dysgu, orfod eu gwisgo. Mae'n rhaid ystyried yn ofalus pa effaith a gaiff gwisgo gorchudd wyneb ar ddysgwyr sy'n drwm eu clyw, neu sydd ag unrhyw fath o nam ar y clyw. Mae ein canllawiau yn cysylltu â chyngor a roddwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar er mwyn helpu ysgolion a lleoliadau i reoli hyn yn briodol.

Mae ein canllawiau gweithredol yn nodi y dylai ysgolion gael proses ar gyfer tynnu gorchuddion wyneb yn ddiogel pan fydd dysgwyr a staff sy'n dewis eu defnyddio yn cyrraedd yr ysgol, gan gynnwys peidio â chyffwrdd â blaen y gorchudd wyneb wrth eu defnyddio neu wrth eu tynnu, golchi dwylo ar unwaith wrth gyrraedd (yn achos pob dysgwr), a chael gwared arnynt neu eu storio'n ddiogel.

Mae llawer iawn y gall ein hysgolion a'n lleoliadau ei wneud i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint a chreu lle mor ddiogel â phosibl i bob dysgwr ffynnu. Yn yr ystafell ddosbarth, mae cadw pellter diogel rhwng pobl a lleihau'r amser y maent mewn cysylltiad wyneb yn wyneb yn gostwng y risg o drosglwyddo'r feirws. Yn ddelfrydol, dylai oedolion gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth ddysgwyr. Cynghorir yn gryf y dylai staff mewn ysgolion uwchradd gadw pellter oddi wrth eu dysgwyr, cadw draw oddi wrth gydweithwyr lle bo hynny'n bosibl ac aros o flaen y dosbarth. Gwyddom na fydd y mesurau hyn bob amser yn ymarferol, yn enwedig gyda dysgwyr iau, ond bydd dilyn y canllawiau pan fydd amgylchiadau'n caniatáu yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws.

Mae'n bwysig i'n hysgolion a'n lleoliadau gefnogi dysgwyr i gadw pellter diogel a peidio â chyffwrdd â staff a'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Lle na ellir cyflawni hyn, gellir lleihau'r risg trosglwyddo yn sylweddol drwy gadw dysgwyr mewn grwpiau a dosbarthiadau llai o faint, fel sy'n cael ei amlinellu yn ein canllawiau.

Yn unol â chyngor iechyd, nid oes rhaid i blant o dan 11 oed gynnal pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd nac oddi wrth oedolion tra byddant mewn ysgolion a lleoliadau. Erys y cyngor bod y risg i blant o dan 11 oed ddal a throsglwyddo'r feirws yn isel iawn, ond byddant yn parhau i fod yn rhan o unrhyw gyfyngiadau eraill sydd ar waith, a rhaid iddynt barhau i gadw at y cyfyngiadau cymdeithasol ar gwrdd â grwpiau teuluol eraill neu gynulliadau ehangach er enghraifft.


Gall ysgolion wneud newidiadau i drefn y dydd, er enghraifft peidio â chynnal cynulliadau mawr fel gwasanaethau mewn un lle, cynnal amser egwyl ar wahanol amser, newid trefniadau eistedd, cynyddu llif yr aer i fannau dan do a chynnal gweithgareddau mewn amgylcheddau dysgu yn yr awyr agored, lle bo hynny'n bosibl.

Mae awdur y ddeiseb yn cyfeirio at drefniadau mewn perthynas â gwisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gludo plant i ysgolion. Mae'n canllawiau gweithredol yn

amlinellu y dylai awdurdodau lleol asesu anghenion teithio dysgwyr sy'n iau na 19 oed, gan roi mesurau diogelwch cymesur yn eu lle er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws ar gludiant penodol ar gyfer teithio o'r cartref i'r ysgol. Nid yw'n ofynnol gwisgo gorchudd wyneb ar gludiant penodol ar gyfer teithio o'r cartref i'r ysgol, ond bydd rhaid i blentyn 11 oed neu'n hŷn sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus gyffredin wisgo gorchudd wyneb yn unol â'r rheoliadau Coronafeirws.

Rwy'n deall y bydd y canllawiau hyn yn cael eu croesawu gan rai ac yn peri gofid i eraill. Mae'n rhaid i ni gydbwysu'r risg gyffredinol i ddysgwyr mewn perthynas â COVID-19, sy'n isel iawn, y diffyg tystiolaeth i ddangos unrhyw fanteision sylweddol mewn defnyddio gorchuddion wyneb, a'r risgiau tebygol sy'n codi o'u defnyddio a chael gwared â hwy yn anghywir, yn erbyn pryderon rhieni a phlant a'r awydd i wisgo gorchuddion wyneb. Hoffwn sicrhau awdur y ddeiseb y bydd ein cyngor o ran gorchuddion wyneb yn cael ei adolygu'n barhaus, a hynny ar sail y dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf mewn perthynas ag ieched, gan gynnwys yng nghyd-destun gwybodaeth newydd sydd wedi ei ryddhau gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**P-05-1017 Allow pupils to wear masks in all areas of the school premises,
Correspondence – Petitioner to Committee, 22.09.20**

PETITION P-05-1017

21st September 2020

Dear whom it may concern,

Thank you for the response. Throughout the pandemic, the use of face coverings has been a highly debatable topic; with the government changing its advice from 'No evidence the general wearing of face masks by the public who are well affects the spread of the disease' (Jonathan Van Tam, Deputy Chief Medical Officer Professor) to 'Things like wearing a face mask, which reduces the transmission, very clearly' (Matt Hancock, Health Secretary). The Welsh government's latest plea for shoppers to wear face coverings when shopping, and I believe schools across Wales should follow suit and have face coverings in classroom settings as pupils are confined in classrooms together for a long period of time.

The Welsh Government's latest advice is for pupils to wear face coverings in school communal areas, but the use of face covering is still not recommended in classrooms. The messaging laid out is nothing short of chaotic. Currently, I must wear a face covering to buy a pint of milk where 2 meters social distancing is more likely to be observed as well as plastic screens at checkout points. But pupils are not allowed to wear face coverings when in a closed environment of more than 20 people, with no social distancing, and central air conditioning in some classrooms.

The mixed messaging from the Welsh Government creates an impression that people can spread the virus in shops but not in schools. On the other hand, some may argue that children are less at risk compared to adults. Even so, it does not make them any less contagious. This means they can still contract the virus in school and

pass it onto more vulnerable adults that may be in their bubble creating chains of infections that can be hard to break up.

As we move to the autumn/winter season we are likely to experience a spike in other illnesses like Rhinovirus and flu. The use of face coverings can limit the distance that droplets travel during a cough or sneeze, meaning a broader use of them can result in higher attendance rates among pupils as less pupils are off with other illnesses.

In the response from the Minister of Education, she wrote 'The Welsh Government does not explicitly prohibit use of face coverings in classrooms' but there have been cases in Ysgol Friars where pupils are told off for refusing to take off their face coverings in lessons.

I do understand the impact of face coverings on pupils who may have hearing difficulties or those who rely on lip reading as their main source of communication. However, I believe the Welsh Government should NOT use a 'one size fits all' solution when tackling a problem like this, especially in secondary schools where pupils move between blocks of buildings mixing with hundreds of pupils across the school. To this day, the use of face shields as an alternative is still not permitted in many schools across Wales even though it solves all the problems a face covering may cause like speech and lip reading. The benefits of a face shield are that it can block off any potential droplets from other people also droplets produced by the user. Personally, I see this as a solution to any classes that may have pupils who have problems with speech or those who rely on lip reading. should there be no pupils in a particular class that have hearing difficulties or must rely on lip reading, the use of face coverings must remain an option for the pupil.

As the scientific evidence on the use of face coverings grow, I believe the Welsh Government should allow the use of face coverings in classroom settings and make schools to let pupils have a choice on

whether to wear one. Recently, the World Health Organization has advised members of public to “Wear a mask where physical distancing is difficult, such as on public transport, in shops or in other confined or crowded environments” these conditions all fit the description of a classroom.

Even though the Welsh Government have called on schools to reduce classroom size numbers, but many schools are simply unable to do it. Whether its lack of classrooms or lack of teachers. Therefore, the use of face coverings is important as social distancing is near impossible and class sizes remains unchanged.

The Welsh Government should look at our European counterparts (France, Italy, Germany, and Spain) where widespread face covering use in schools have resulted in safer schools. Even in countries like the Netherlands where the use of face coverings in classroom settings are not compulsory, there is no advice saying it is “not recommended” or there are no schools telling pupils off for wearing one in classrooms.

Finally, I have some further questions for the First Minister of Wales, Minister of Education and the petitions committee

- Since neither social distancing nor face coverings are existent in **classrooms across Wales**, what makes you so sure schools are ‘COVID Secure’?
- The latest figures show that 1 in 5 pupils in Wales were absent in the first week of school, do you think this is down to parents thinking that schools are not safe?

Yours Sincerely,



JOHN ZHAO

P-05-1020 Cyflwyno proses apelïadau yng Nghymru mewn perthynas â'r holl Raddau Asesu Canolfannau ar gyfer rhaglen arholïadau cyhoeddus 2020

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan 'Parents in Wales', ar ôl casglu cyfanswm o 87 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Roeddem yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylai'r canlyniadau ar gyfer arholïadau 2020 gael eu harfarnu ar sail graddau asesu canolfannau. Fodd bynnag, yr hyn sydd ei angen ar ddysgwyr yn awr yw proses dryloyw ar gyfer apelïo yn erbyn unrhyw raddau asesu canolfannau a allai fod wedi cael eu gostwng yn sgil y meini prawf asesu a bennwyd gan CBAC, a hynny gan ddiystyru mesurau cydadferol; hynny yw, amgylchiadau amrywiol ymhlith dysgwyr sy'n effeithio ar ddata.

Gwybodaeth Ychwanegol

Rhai enghreifftiau

- salwch neu faterion meddygol ymhlith dysgwyr a arweiniodd at absenoldeb o'r ysgol, achosion o fethu arholïadau ffug a phrofion pwnc, a gostyngiad yn y data olrhain;
- anghysondebau neu broblemau staffïo a effeithiodd ar ansawdd yr addysgu ac yn effeithio ar ganlyniadau data dysgwyr;
- dysgwyr ag anghenion ychwanegol a oedd yn absennol, o bosibl, neu wedi'u hynysu, neu na chafodd gefnogaeth ddigonol o ran eu hanghenion addysgol arbennig; byddai hyn yn effeithio ar yr holl ddata ac yn eithrio eu potensial;
- plant sy'n derbyn gofal a allai fod yn mynd drwy newidiadau o ran eu hysgol neu eu rhieni maeth, ac yn profi trawma emosiynol a allai effeithio ar ddata.

Mae Cymwysterau Cymru wedi mynegi pryder yn y cyfryngau ynghylch y ffaith y gallai'r broses o ddefnyddio graddau asesu canolfannau gynnwys

elfen o chwyddiant o ran y canlyniadau a gafodd eu harfarnu gan athrawon. Os yw'r pryder hwn yn un dilys, mae hefyd yn bosibl y byddai athrawon, er mwyn gwrthbwysu'r chwyddiant hwn, yn tueddu i ddefnyddio graddau cydadferol, sef graddau wedi'u gostwng, er mwyn sicrhau patrwm perfformiad arferol yn yr ysgol. Felly mae'n debygol y bydd rhai myfyrwyr yn siomedig â'u graddau asesu canolfannau, ac yn yr achosion hynny, dylai fod modd iddynt geisio apêl yn erbyn eu hysgolion.

Parents Voices in Wales.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

Apeliadau yn erbyn Graddau Aseu Canolfannau

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020
Petitions Committee | 29 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13831-2

Rhif y ddeiseb: P-05-1020

Teitl y ddeiseb: Cyflwyno proses apeliadau yng Nghymru mewn perthynas â'r holl Raddau Aseu Canolfannau ar gyfer rhaglen arholiadau cyhoeddus 2020

Geiriad y ddeiseb: Roeddem yn falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylai'r canlyniadau ar gyfer arholiadau 2020 gael eu harfarnu ar sail graddau aseu canolfannau. Fodd bynnag, yr hyn sydd ei angen ar ddysgwyr yn awr yw proses dryloyw ar gyfer apelio yn erbyn unrhyw raddau aseu canolfannau a allai fod wedi cael eu gostwng yn sgil y meini prawf aseu a bennwyd gan CBAC, a hynny gan ddiystyru mesurau cydadferol; hynny yw, amgylchiadau amrywiol ymhlith dysgwyr sy'n effeithio ar ddata.



1. Crynodeb

- Yn dilyn canslo arholiadau yn 2020, yn y lle cyntaf roedd graddau yn mynd i gael eu dyfarnu dan broses safoni, a gymhwyswyd gan CBAC, i'r graddau a gyflwynwyd ar gyfer dysgwyr gan eu hysgol neu eu coleg.
- Mewn ymateb i bryderon bod safoni'n arwain at ostwng llawer o Raddau Asesu Canolfannau, penderfynodd Llywodraeth Cymru mai'r radd uchaf o'r Radd Asesu Canolfannau a'r radd safonedig fyddai'n cael ei defnyddio.
- Ni chaiff ymgeiswyr apelio yn erbyn y penderfyniad proffesiynol y mae eu canolfan wedi'i wneud wrth bennu eu gradd. Dim ond os bu gwall gweinyddol neu weithdrefnol, neu achos o gamymddwyn y caniateir hynny.

2. Canslo arholiadau a'r broses a roddwyd ar waith ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020

Ar yr un diwrnod (18 Mawrth) ag y cyhoeddodd fod ysgolion yn cau, **penderfynodd [Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg](#)**, yn dilyn trafodaethau â Cymwysterau Cymru a CBAC, **na fyddai cyfres arholiadau TGAU a Safon Uwch haf 2020 yn mynd yn ei blaen**.

O'r cychwyn cyntaf, dywedodd y Gweinidog y byddai '**gradd deg**' yn cael ei dyfarnu i ddysgwyr (Blwyddyn 11 a 13 yn bennaf) y disgwyliwyd iddynt sefyll eu harholiadau TGAU a Safon Uwch yr haf hwn, '**gan dynnu ar ystod yr wybodaeth sydd ar gael**'.

Dywedodd canllawiau Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mawrth, y byddai graddau yn cael eu 'cyfrifo gan ddefnyddio'r ystod o wybodaeth sydd ar gael, er enghraifft y gwaith a wnaed hyd yma, ffug-arholiadau a graddau wedi'u hasesu gan athrawon'. Dywedodd y Llywodraeth hefyd mai ei '**nod yw sicrhau na fydd unrhyw ddysgwyr dan anfantais**'.

Fel rheoleiddiwr cymwysterau islaw lefel gradd, cychwynnodd Cymwysterau Cymru broses ar gyfer cyhoeddi graddau yn 2020. Byddai'n rhaid i broses o'r fath gofio am y **ddau brif nod** sydd gan y rheoleiddiwr o dan **[Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015](#)**:

- a) sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru;
- b) hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau ac yn system gymwysterau Cymru.

Roedd y broses a roddwyd ar waith gan Cymwysterau Cymru yn golygu bod ysgolion yn cyflwyno gradd (Gradd Asesu Canolfannau) a threfn restrol i'w disgyblion. Cytunodd Cymwysterau Cymru ar ddull y byddai CBAC, fel y corff dyfarnu, yn ei ddefnyddio i '**safoni'r**' **graddau hyn drwy ddefnyddio**

model ystadegol. Nod hyn oedd sicrhau tegwch a chysondeb rhwng canolfannau, yn ogystal â **chynnal sefydlogrwydd graddau a gwerth y cymwysterau** a ddyfernir. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses hon yn erthyglau blog Ymchwil y Senedd a gyhoeddwyd ar **7 Awst 2020** a **14 Awst 2020**.

3. Graddau Asesu Canolfannau

3.1. Y penderfyniad i ddefnyddio Graddau Asesu Canolfannau

Yn dilyn cyhoeddi graddau Safon Uwch ar 13 Awst 2020, daeth i'r amlwg bod bron hanner (46 y cant) y Graddau Asesu Canolfannau wedi'u newid ar ôl y cyfrifiad safoni. **Roedd 42 y cant o'r graddau a gyfrifwyd (wedi'u safoni) yn is na'r Graddau Asesu Canolfannau** ac roedd 4 y cant yn uwch.

Ar 17 Awst, **cyhoeddodd y Gweinidog Addysg** y byddai ymgeiswyr Safon Uwch, UG, TGAU, Tystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru yn cael **y radd uchaf o'r radd asesu canolfannau a'r radd a gyfrifwyd** o'r model safoni. Roedd hyn yn dilyn pryderon ynghylch nifer yr ymgeiswyr a oedd yn wynebu cael graddau is na'r hyn y cyflwynodd eu hysgol ar eu cyfer o ganlyniad i'r system safoni. Dywedodd y Gweinidog fod y 'cydbwysedd o ran tegwch' bellach yn seiliedig ar ddyfarnu graddau asesu canolfannau i fyfyrwyr.

Gwnaed penderfyniadau tebyg yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr.

Bu'r **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn holi'r Gweinidog ar 18 Awst 2020**. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau gyda Cymwysterau Cymru a CBAC hefyd.

3.2. Sut y penderfynwyd ar y Graddau Asesu Canolfannau?

Nododd canllawiau a gyhoeddodd Cymwysterau Cymru i ganolfannau ar gynhyrchu Graddau Asesu Canolfannau i'w disgyblion (Mai 2020) y canlynol:

Dylai cynhyrchu graddau asesu canolfannau ar gyfer pob dysgwr fod yn **farn broffesiynol gyfannol**, sy'n cydbwysu'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth. Bydd gan athrawon, Penaethiaid Adran ac uwch arweinwyr ddealltwriaeth dda o alluoedd eu dysgwyr a sut y maent yn cymharu â dysgwyr eraill sy'n cymryd y cymhwyster eleni, ac mewn blynyddoedd blaenorol. Rydym am i ganolfannau ystyried perfformiad pob dysgwr dros gyfnod yr astudiaeth a llunio **barn realistig o'r radd y byddai pob dysgwr wedi bod yn fwyaf tebygol o'i chael pe bai wedi sefyll ei arholiad(au)** mewn pwnc, ynghyd ag unrhyw asesiadau diarholiad haf yma. [pwyslais Ymchwil y Senedd yw'r print trwm]

Mae rhagor o fanylion ar gael ar [dudalennau 3-5 o'r canllawiau](#).

4. Apeliadau

Yn dilyn y penderfyniad i ddefnyddio Graddau Asesu Canolfannau, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru [drefniadau apelio diwygiedig](#). Ni chaiff ymgeiswyr **apelio yn erbyn penderfyniad proffesiynol eu hysgol neu eu coleg** ar y radd y byddent yn fwyaf tebygol o fod wedi'i chyflawni pe bai arholiadau wedi'u cynnal. Dim ond os bu rhyw fath o wall gweinyddol neu weithdrefnol y cânt apelio.

Roedd eisoes yn wir na fyddai ymgeiswyr yn cael apelio yn erbyn Graddau Asesu Canolfannau heblaw pan oedd gwall gweinyddol neu weithdrefnol, yn hytrach nag mewn perthynas â phenderfyniadau ysgolion ac athrawon. Fodd bynnag, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Graddau Asesu Canolfannau pan maent yn uwch na graddau a gyfrifwyd, mae prif ffocws unrhyw anghytundeb â'r radd a ddyfarnwyd yn debygol o fod tuag at yr ysgol neu'r coleg, yn hytrach na'r corff dyfarnu a'r broses safoni. .

Penderfynodd Cymwysterau Cymru ddiwedd mis Mehefin, yn dilyn [ymgyngoriad](#), na fyddai dysgwyr yn cael apelio at CBAC yn erbyn y radd y mae eu canolfan wedi'i chyflwyno ar eu cyfer na'r drefn restrol a roddwyd iddynt. **Gan nad oes asesiad cyffredin i lywio'r penderfyniadau proffesiynol a wneir**, mae'n dweud **nad oes meincnod na thystiolaeth safonol ar gael i adolygwyr neu wneuthurwr penderfyniadau apêl wrth werthuso penderfyniadau** (gweler tudalen 33 o [adroddiad penderfyniad](#) Cymwysterau Cymru).

Dywedodd Cymwysterau Cymru hefyd nad oes **neb mewn sefyllfa well i wneud y penderfyniadau hyn nag gan athrawon sydd** wedi ymgysylltu â'u dysgwyr drwy gydol y cwrs astudio, mai hwy sydd â'r ddealltwriaeth orau o'u galluoedd a sut y maent yn cymharu â dysgwyr eraill yn y ganolfan honno sy'n dilyn y cymhwyster y flwyddyn hon, ac mewn blynyddoedd blaenorol (gweler tudalen 28 o [adroddiad penderfyniadau](#) Cymwysterau Cymru).

Cadarnhaodd y Gweinidog yng nghyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 18 Awst (gweler paragraffau 346-347 o'r [trawsgrifriad](#)) na fyddai ymgeiswyr yn cael apelio yn erbyn penderfyniadau proffesiynol canolfannau.

Fel y mae llythyr y Gweinidog at y Pwyllgor Deisebau ynghylch y ddeiseb hon yn amlinellu, os oes gan ymgeiswyr bryderon bod eu hysgol wedi dangos rhagfarn neu wahaniaeth wrth benderfynu ar eu Gradd Asesu Canolfannau, dylent gysylltu â'u canolfan a defnyddio [gweithdrefn cwyno'r ysgol](#). Hefyd, cânt drosglwyddo unrhyw dystiolaeth i CBAC a all, wedyn, benderfynu ymchwilio i'r mater fel achos camymddwyn honedig gan y ganolfan. Mae [canllaw dysgwyr i'r broses apelio](#), a luniodd Cymwysterau Cymru, yn rhoi rhagor o wybodaeth.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref KW/05120/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau.
Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
deisebau@senedd.cymru

8 Medi 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 1 Medi, ynghylch Deiseb P-05-1020 i gyflwyno proses apeliadau mewn perthynas â holl Raddau Asesu Canolfannau ar gyfer rhaglen arholiadau cyhoeddus 2020.

Byddwch yn gwybod fy mod wedi cyhoeddi ddydd Llun, 17 Awst y byddai graddau TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru nawr yn cael eu dyfarnu ar sail graddau asesu canolfannau. Yn sgil y newid hwn o ran dyfarnu cymwysterau, bydd dysgwyr yng Nghymru bellach yn cael y radd uchaf o'r ddwy radd a bennwyd ar gyfer eu cymwysterau TGAU, Safon UG a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru – gradd eu canolfan ar y naill law a'r radd a gyfrifwyd ar y llall. Yn achos Safon Uwch, bydd dysgwyr yn cael y radd uchaf o'r tair gradd a bennwyd – gradd eu Safon UG, gradd eu canolfan a'r radd a gyfrifwyd.

Yng ngoleuni'r newid hwn mewn polisi, mae Cymwysterau Cymru wedi mireinio'r broses apeliadau i adlewyrchu'r defnydd o raddau asesu canolfannau. Mae datganiad llawn Cymwysterau Cymru ar y broses apeliadau i'w weld isod, ac ychwanegwyd ato yn ddiweddar i roi sylw i amgylchiadau eithriadol yn dilyn newidiadau mewn awdurdodaethau eraill, er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais. Mae [canllaw i ddysgwyr](#) wedi'i gyhoeddi hefyd o ran y broses apeliadau, i'w helpu i ystyried p'un a ddylent apelio a sut i wneud hynny.

<https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-cymwysterau-cymru/datganiad-cymwysterau-cymru-ynghylch-broses-apelio/>

Yn dilyn fy mhenderfyniad ar 18 Mawrth 2020 i gau ysgolion a chanslo cyfres arholiadau haf 2020, roedd yn rhaid mynd ati i hwyluso'r ffordd i ddysgwyr symud ymlaen i'r chweched dosbarth, coleg, addysg uwch, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 100
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gofynnwyd i ysgolion a cholegau gyflwyno graddau asesu eu canolfan, ynghyd â'u rhestr o ddysgwyr yn eu trefn er mwyn gallu dyfarnu cymwysterau TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau. Darparwyd canllawiau i Benaethiaid Canolfannau ac athrawon ynghylch sut i gyfrifo'r graddau, a'r dystiolaeth y dylid ei hystyried, ac mae dolen at y canllawiau isod.

<https://www.cymwysteraucymru.org/media/5972/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau-fersiwn-2-18-mai-2020.pdf>

Cynghorwyd canolfannau bod yn rhaid i'r graddau asesu a gyflwynir i CBAC adlewyrchu'r radd fwyaf tebygol y byddai dysgwr wedi'i chael pe bai wedi sefyll ei arholiadau yr haf hwn ac wedi cwblhau unrhyw asesiad arall, a hynny mewn ffordd deg, resymol ar sail ystyriaeth ofalus.


Os bydd gan ddysgwr bryderon bod ei ganolfan wedi pennu graddau ar sail rhagfarn neu wahaniaethu o unrhyw fath, dylai'r dysgwr godi'r mater gyda'i ganolfan a gofyn p'un a oes camgymeriad wedi'i wneud. Os cyflwynwyd y radd yn gywir, efallai y bydd y dysgwr am wneud cwyn i'w ysgol neu ei goleg, ac rydym wedi cyhoeddi canllawiau ar weithdrefnau cwyno i ysgolion ar wefan Llywodraeth Cymru <https://llyw.cymru/gweithdrefnau-cwyno-ysgolion-canllawiau>

Lle na fydd hynny'n briodol, gall dysgwr hefyd basio tystiolaeth o'r fath ymlaen i CBAC, a gallant hwythau yn eu tro benderfynu ymchwilio i'r mater fel achos honedig o esgeulustod gan y ganolfan. Mae hyn i gyd wedi'i esbonio yn y canllaw i ddysgwyr sydd gan Cymwysterau Cymru. O ran y broses apeliadau, ar 12 Awst gwnes ymrwymiad hefyd i sicrhau bod apelio i fwrdd arholi Cymru, CBAC yn broses rad ac am ddim rhag creu rhwystr ariannol i ddysgwyr sy'n anhapus â'u graddau.

Ar 28 Awst, cyhoeddais y bydd Louise Casella yn cadeirio adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau cyfres arholiadau 2020. Louise yw Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru ac mae ganddi brofiad helaeth mewn rolau strategol yn y sector addysg. Bydd yr adolygiad yn ystyried materion allweddol sydd wedi codi yn sgil y trefniadau a sefydlwyd ar gyfer arholiadau'r haf hwn, a'r heriau sydd hefyd yn codi. Yn wyneb yr angen brys i sefydlu mesurau ar gyfer cyfres arholiadau 2021, a datblygu trefniadau wrth gefn rhag ofn y gwelwn darfu pellach, rwyf wedi gofyn i Louise roi adroddiad interim imi o'r prif ganfyddiadau erbyn diwedd Hydref, ac adroddiad terfynol ac argymhellion erbyn canol Rhagfyr.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o ddefnydd ichi.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Eitem 3.1

P-05-995 Rhyddid i Roi Gwaed

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Arron Glyn Bevan-John, ar ôl casglu cyfanswm o 2,726 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Yng Nghymru, ni chaniateir i ddynion hoyw a deurywiol roi gwaed – oni bai eu bod yn ymatal rhag cael rhyw am dri mis. Hoffem ymgyrchu dros 'Waed Heb Ragfarn' gan roi rhyddid i bobl roi gwaed. Mae'r ddeiseb hon yn gofyn i Lywodraeth Cymru gael gwared ar y cyfnod gohirio tri mis, a chyflwyno dull personol sy'n seiliedig ar risg i asesu ymddygiadau rhywiol, yn hytrach na phroses or-symbl lle caiff pobl eu grwpio gyda'i gilydd ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol gan eu gwahardd rhag rhoi gwaed. Dyma'r ffordd orau o sicrhau bod y rhai sy'n awyddus i roi gwaed, ac sy'n gallu gwneud hynny'n ddiogel, yn gallu.

Mae'n fater iechyd cyhoeddus ac yn fater anghydraddoldeb. Nid oes gennym ddigon o waed yn ein banciau gwaed ond eto rydym yn dewis gwahaniaethu yn erbyn grŵp cyfan o bobl ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol. Dim ond un ateb sydd i brinder gwaed yn genedlaethol; dileu'r cyfnod gohirio a rhoi'r gorau i wahaniaethu yn erbyn dynion hoyw a deurywiol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gwyr
- Gorllewin De Cymru

Rhyddid i Roi Gwaed

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020
Petitions Committee | 29 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13682-6

Rhif y ddeiseb: P-05-995

Teitl y ddeiseb: Rhyddid i Roi Gwaed

Geiriad y ddeiseb: Yng Nghymru, ni chaniateir i ddynion hoyw a deurywiol roi gwaed – oni bai eu bod yn ymatal rhag cael rhyw am dri mis. Hoffem ymgyrchu dros 'Waed Heb Ragfarn' gan roi rhyddid i bobl roi gwaed. Mae'r ddeiseb hon yn gofyn i Lywodraeth Cymru gael gwared ar y cyfnod gohirio tri mis, a chyflwyno dull personol sy'n seiliedig ar risg i asesu ymddygiadau rhywiol, yn hytrach na phroses or-syml lle caiff pobl eu grwpio gyda'i gilydd ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol gan eu gwahardd rhag rhoi gwaed. Dyma'r ffordd orau o sicrhau bod y rhai sy'n awyddus i roi gwaed, ac sy'n gallu gwneud hynny'n ddiogel, yn gallu. Mae'n fater iechyd cyhoeddus ac yn fater anghydraddoldeb. Nid oes gennym ddigon o waed yn ein banciau gwaed ond eto rydym yn dewis gwahaniaethu yn erbyn grŵp cyfan o bobl ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol. Dim ond un ateb sydd i brinder gwaed yn genedlaethol; dileu'r cyfnod gohirio a rhoi'r gorau i wahaniaethu yn erbyn dynion hoyw a deurywiol



1. Cefndir

Mae gwefan Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cynghori ei bod yn ofynnol i wasanaethau gwaed y DU gymhwyso meini prawf ar gyfer rhoi gwaed sy'n cael eu gosod gan Bwyllgor Cynghori'r Adran Iechyd ar Ddiogelwch Gwaed, Meinweoedd ac Organau (SaBTO) a'r Cydbwyllgor Cynghori Proffesiynol ar Ddewis Rhoddwyr.

Mae'n rhaid i Wasanaeth Gwaed Cymru ddilyn canllawiau llym gan SaBTO ac mae'n cael ei archwilio'n rheolaidd gan reoleiddwyr annibynnol.

Mae SaBTO yn mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r meini prawf ar draws holl wasanaethau gwaed y DU ar gyfer derbyn rhoddwyr gwaed ar sail risg heintiad trosglwyddadwy drwy drallwysiad.

Mae gwefan Gwasanaeth Gwaed Cymru yn nodi bod yn rhaid i bob dyn aros dri mis ar ôl cael rhyw geneuol neu refrol gyda dyn arall cyn rhoi gwaed. Mae'r rheol hon yn berthnasol i bob dyn, waeth beth yw eu cyfeiriadedd rhywiol, p'un a ydynt mewn perthynas sefydlog neu p'un a ydynt yn defnyddio amddiffyniad fel condomau neu broffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP).

Os yw unigolyn yn cymryd proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP) neu broffylacsis ôl-gysylltiad (PEP), ni fydd yn cael rhoi gwaed. Os yw'n rhoi'r gorau i gymryd PrEP neu PEP, bydd angen aros tri mis cyn cael rhoi gwaed.

Mae'r ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor dyddiedig 3 Awst 2020 yn nodi bod y rheswm bras dros wneud i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion ac sy'n rhywiol actif aros cyn rhoi gwaed yn seiliedig ar y ffaith eu bod nhw fel grŵp yn hysbys o fod â risg uwch o ddal haint a gludir yn y gwaed fel HIV neu Hepatitis B, a allai wedyn gael ei drosglwyddo drwy drallwysiad gwaed.

Mae'r risg uwch hon hefyd yn berthnasol i grwpiau eraill o bobl, gan gynnwys gweithwyr rhyw, pobl sydd â phartneriaid y mae'n hysbys eu bod wedi'u heintio â heintiau trosglwyddadwy drwy drallwysiad fel HIV neu hepatitis B, pobl sydd â phartneriaid o rannau o'r byd sydd â nifer uchel o achosion o HIV/AIDS, pobl sydd erioed wedi chwistrellu eu hunain â chyffuriau di-bresgripsiwn, a phobl sydd ar hyn o bryd yn cymryd PrEP neu PEP. Mae pob unigolyn yn y grwpiau mwy hyn yn cyflwyno lefel wahanol o risg yn dibynnu ar eu hamgylchiadau penodol. Ar hyn o bryd, nid yw Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cael addasu'r rheolau hyn ar gyfer unigolion a rhaid iddynt gadw at y canllawiau cyffredinol.

Mae gwefan Gwasanaeth Gwaed Cymru hefyd yn nodi bod yn rhaid aros am dri mis er mwyn lleihau'r risg na fydd unrhyw heintiau a gafwyd yn ddiweddar iawn yn cael eu canfod wrth sgrinio a chynnal y profion pellach y mae'r gwasanaethau gwaed yn eu gwneud ar bob rhodd.

Mae pob rhodd gwaed yn cael ei brofi ond mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn nodi bod posibilrwydd bach iawn na fydd prawf yn sylwi ar haint y mae rhoddwr wedi'i gael yn ddiweddar iawn, ond bod modd ei drosglwyddo drwy'r gwaed o hyd. Mae hyn oherwydd bod cyfnod o amser (neu ffenestr) rhwng cael haint a'i bod i'w weld yn ddibynadwy mewn profion. Os bydd rhywun yn rhoi gwaed yn ystod y cyfnod hwn, gallai fod haint yn ei waed a allai gael ei drosglwyddo i'r cleifion sy'n derbyn ei waed. Mae **adroddiad gan SaBTO** ar gael ynglŷn â'r rhesymeg feddygol a gwyddonol y tu ôl i'r cyfnod aros.

Ar hyn o bryd mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn rhan o'r **grŵp llywio FAIR (For the Assessment of Individualised Risk)**, ynghyd â gwasanaethau gwaed ledled y DU, i weld a oes modd defnyddio polisi dewis rhoddwyr mwy unigol a fyddai'n rhoi ystyriaeth fwy manwl i amgylchiadau personol y rhoddwr. Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gweithio gydag ystod o bobl a grwpiau LHDT+, gan gynnwys:

- Yr Ymddiriedolaeth AIDS Genedlaethol
- Stonewall
- Freedom to Donate
- Ymddiriedolaeth Terence Higgins
- Arbenigwyr epidemioleg a seicoleg

Mae'r grŵp yn gobeithio adrodd ar ganfyddiadau ei waith ymchwil tua diwedd 2020.

Bu ymgyrchoedd mewn perthynas ag aros am dri mis i roi gwaed, gan gynnwys rhai gan y sefydliad **Freedom to Donate** a **Gwaed Heb Ragfarn**. Mae'r wefan Freedom to Donate yn nodi ei bod am fynd ymhellach na lleihau'r cyfnod aros o 12 mis i dri. Mae Freedom to Donate yn dadlau o blaid polisi wedi'i seilio ar risg unigolion, a fydd yn asesu ymddygiad rhywiol yn hytrach na rhywioldeb.

2. Camau i'w cymryd gan Lywodraeth Cymru

Mae'r ohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor dyddiedig 3 Awst 2020 yn pwysleisio bod Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi'i rwymo gan reolau llym o ran pwy sy'n gymwys i roi gwaed a phlasma. Mae'r rheolau yr un peth ar gyfer holl wasanaethau gwaed y DU ac ni all Gwasanaeth Gwaed Cymru wneud rheolau annibynnol sy'n mynd yn groes i'r canllawiau cenedlaethol, gan fod llawer o'r rheolau hyn wedi'u gwreiddio yng nghyfraith y DU yn Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005, fel sy'n wir o ran y meini prawf cymhwysedd ar gyfer dynion sy'n cael rhyw gyda dynion.

Mae'r rheolau wedi esblygu dros amser yn dilyn sawl adolygiad o'r canllawiau a wnaed gan SaBTO, a'r diwygiadau diweddaraf yw:

- Cyn 2011 roedd rheol ar waith yn nodi na fyddai dyn sydd wedi cael rhyw gyda dyn arall byth yn cael rhoi gwaed;
- Yn 2011, newidiwyd y gwaharddiad hwn i gyfnod aros o 12 mis, ac
- Yn 2017, cafodd y cyfnod aros ei leihau ymhellach i dri mis.

Mae'r Gweinidog yn nodi bod y newid diweddaraf yn y DU yn 2017 i leihau'r cyfnod aros i dri mis yn rhoi'r DU mewn sefyllfa fwy manteisiol na rhai gwasanaethau eraill fel Croes Goch Awstralia, sy'n dal i osod cyfnod aros o 12 mis.

Yn ystod adolygiad diweddaraf SaBTO, a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr grwpiau cleifion a grwpiau buddiant eraill fel Ymddiriedolaeth Terrence Higgins, trafodwyd y meini prawf ar gyfer dynion sy'n cael rhyw gyda dynion.

Er bod gostyngiad 2017 yn cael ei groesawu, mae'r Gweinidog yn nodi y cydnabyddir bod angen ystyried y cyfnod aros ymhellach ac y dylid ystyried risgiau unigol yn hytrach na risg grŵp. Mae'r Gweinidog yn cyfeirio at y grŵp llywio FAIR, sydd â'r nod o edrych a yw'n bosibl cael dull asesu risg mwy unigol fel rhan o'r polisi dewis rhoddwyr gwaed, gan sicrhau cyflenwad diogel o waed i gleifion. Y gobaith yw y bydd yr astudiaeth yn cyflwyno adroddiad i SaBTO ar ganfyddiadau ei gwaith ymchwil tua diwedd 2020, ac mae'r Gweinidog yn nodi y bydd unrhyw newidiadau i'r canllawiau ar ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion yn cael eu cyhoeddi bryd hynny.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref VG/04758/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

3 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich e-bost ar 6 Gorffennaf ynglŷn â deiseb P-05-995 – Rhyddid i Roi Gwaed.

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gorfod cadw at reolau caeth yn ymwneud â chymhwysedd rhoddwyr gwaed a phlasma yn seiliedig ar yr egwyddor o sicrhau diogelwch y bobl sy'n rhoi ac yn derbyn gwaed a chynnyrch gwaed. Mae'r rheolau hyn yr un fath ar gyfer holl wasanaethau gwaed y DU ac nid yw Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gallu gwneud rheolau annibynnol sy'n groes i ganllawiau cenedlaethol gan fod llawer o'r rheolau hyn yn seiliedig ar gyfraith y DU yn Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed 2005, fel gyda'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer dynion sy'n cael rhyw gyda dynion (MSM).

Y sail gyffredinol ar gyfer gohirio'r hawl i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion, ac wedi cael rhyw'n ddiweddar, i roi gwaed yw'r ffaith bod risg uwch y bydd y grŵp hwn yn dal heintiau a gludir yn y gwaed fel HIV neu Hepatitis B y gellir wedyn eu trosglwyddo o bosib drwy drallwysiad gwaed. Mae'r risg uwch hwn hefyd yn berthnasol i grwpiau eraill o bobl, gan gynnwys gweithwyr rhyw, pobl sydd â phartneriaid sydd wedi'u heintio â heintiau sy'n drosglwyddadwy drwy drallwysiad fel HIV neu hepatitis B, pobl sydd â phartneriaid o rannau o'r byd lle mae HIV/AIDS yn gyffredin iawn, pobl sydd wedi chwistrellu eu hunain gyda chyffuriau nad ydynt ar bresgripsiwn a phobl sy'n cymryd proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP) neu broffylacsis ôl-gysylltiad (PEP). Wrth gwrs, mae gwahanol lefelau risg i bob unigolyn yn y grwpiau ehangach hyn, yn dibynnu ar eu hamgylchiadau penodol. Ar hyn o bryd, nid yw Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gallu addasu'r rheolau hyn ar gyfer unigolion ac mae'n rhaid iddynt gadw at y canllawiau cyffredinol.

Mae canllawiau dethol rhoddwyr gwaed cyfredol holl wasanaethau gwaed y DU yn nodi:

“Ni chewch roi gwaed os ydych chi'n ddyn sydd wedi cael cyfathrach eneuol neu gyfathrach yr anws gyda dyn arall yn y tri mis diwethaf, hyd yn oed os ydych wedi defnyddio condom or neu ddull diogelu arall.”

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

“Ni chewch roi gwaed os ydych wedi cymryd proffylacsis cyn-gysylltiad (PrEP) neu broffylacsis ôl-gysylltiad (PEP) yn y tri mis diwethaf”

Mae'r rheolau hyn wedi datblygu dros amser yn dilyn sawl adolygiad o'r canllawiau gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ddiogelwch Gwaed, Meinweoedd ac Organau (SaBTO). Y diwygiadau diweddaraf yw:

- Cyn 2011 roedd rheol yn bodoli a oedd yn nodi na fyddai dyn a oedd yn cael rhyw gyda dyn arall fyth yn cael rhoi gwaed
- Yn 2011 newidiwyd y gwaharddiad parhaol hwn yn gyfnod o oedi o 12 mis
- Yn 2017 lleihawyd y cyfnod o oedi ymhellach i 3 mis.

Ystyriwyd y meini prawf MSM yn ystod yr adolygiad SaBTO diweddaraf a gynhaliwyd ar y cyd â chynrychiolwyr grwpiau cleifion a phartion eraill â diddordeb fel y Terrence Higgins Trust.

Yn dilyn y newid diweddaraf yn y DU yn 2017, sef lleihau'r cyfnod o oedi i gyfnod o 3 mis, mae'r DU mewn gwell sefyllfa na rhai gwasanaethau eraill fel Croes Goch Awstralia, sy'n dal i ddefnyddio cyfnod oedi o 12 mis.


Er y croesawyd y penderfyniad i leihau'r cyfnod o oedi yn 2017, cydnabuwyd bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r cyfnod o oedi ac ystyried risgiau unigolion yn hytrach na risg grwpiau cyfan.

Mae gwasanaethau gwaed y DU yn cydweithio gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau LGBT+, fel rhan o'r grŵp llywio FAIR (*For the Assessment of Individualised Risk*). Nod grŵp llywio FAIR yw archwilio i weld a yw'n bosibl defnyddio dull asesu risg mwy unigol ar gyfer y polisi dethol rhoddwyr gwaed, gan sicrhau cyflenwad diogel o waed i gleifion.

Rydym eisiau rhoi cyfle i gymaint o bobl â phosibl roi gwaed os yw'n bosibl iddynt wneud hynny'n ddiogel ac mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn defnyddio dull ar y cyd sy'n seiliedig ar wybodaeth i asesu hyn. Y gobaith yw y bydd yr astudiaeth yn rhoi gwybod am ganfyddiadau'r ymchwil i SaBTO tua diwedd 2020.

Bydd unrhyw newidiadau i'r canllawiau MSM yn cael eu cyhoeddi bryd hynny.

Yn gywir,



Vaughan Gething AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

BLOOD EQUALITY WALES



✉ bloodequalitywales@gmail.com

Facebook/Twitter: @EqualBloodWales

22 September 2020

Janet Finch-Saunders MS
Chair, Petitions Committee

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN
petitions@senedd.wales BY EMAIL

Petition: P-05-995-Freedom to Donate Blood

Dear Janet,

Many thanks for taking our petition to the Minister for Health and Social Care, Vaughan Gething MS, *P-05-995-Freedom to Donate Blood*. Please see our full response to the Minister's letter to you dated 3 August 2020 below.

- What are your thoughts on the attached document?

We understand the need to keep blood safe for recipients, however in our view the current rules make it even more unsafe for patients as there is a chance that somebody completing the questionnaire at the blood bank could lie, meaning the national guidance is contradicted intentionally. Our proposal to introduce an individual, risk-based assessment ensures that all blood is safe and that people are not discriminated against purely on the grounds of their sexuality alone.

The argument that men who have sex with men (MSM) are 'known to have a higher risk of acquiring blood borne infection such as Hepatitis B or HIV' is outdated, untrue and quite frankly offensive.

The change in the law over time, detailed below, is of course very welcome but it does not go far enough in ensuring MSM are able to donate blood freely. Take, for example, two males who are in a committed relationship and know their status. They are still

discriminated against on the grounds of their sexuality and so these changes are still discriminatory.

- ***Prior to 2011 there was a rule in place stating that a man who had sex with another man could never give blood***
- ***In 2011 this permanent deferral was changed to a 12 month deferral period***
- ***In 2017 the deferral period was further reduced to 3 months.***

The United Kingdom has a proud history of supporting Lesbian, Gay, Bisexual, Transgender and Plus (LGBT+) people and causes. Whilst we recognise that the UK is far further forward in this debate/change in blood donation rules, the comparison with other countries who find themselves being more discriminatory than we are is unhelpful.

- Does it adequately address the issues that you raised?

Blood Equality Wales welcomes the opportunity to raise questions with Members of the Senedd and of the Minister, Vaughan Gething MS, on the issue of blood donation. Although we know that blood donation laws are governed nationally and that the Welsh Government/Welsh Parliament does not necessarily have a say on the advice from The Advisory Committee on the Safety of Blood, Tissues and Organs (SaBTO), we feel that more could be done to ensure the Welsh Blood Service engages with LGBT+ people on the issue of blood donation, for example through lobbying national government on the want/need for a change and through key engagement with LGBT+ people are Pride events/updating website pages.

- Is there anything additional that you would like the Committee to know at this stage, either in response to this document or as an update to the Committee?

Yes, broadly these are;

1. There are many established campaigns like ours in the United Kingdom which are lobbying Government on the historic decisions, such as the rules around blood donation, which continued to have a detrimental impact on LGBT+ people to this day. Although we know that recent work has made donating blood easier for LGBT+ people, it still does not go far enough. LGBT+ people are being labelled as promiscuous and as 'a risk' and this divisive stance only enhances the difficulties LGBT+ people face on a daily basis.
2. The trade union movement, in particular GMB Union, has produced several campaigns linked to ensuring blood donation by MSM is kept as a topic of high interest in debates, motions and at key engagement events. The public outside those who are affected by these rules are often shocked to learn that MSM are unable to donate blood.

3. The paragraph of the Minister's letter detailed below is full of contradictions and offensive language. Will the Petitions Committee seek clarity on the Minister's thoughts and in particular the damage labelling has on the LGBT+ community?

The broad basis for deferring MSM who are sexually active from blood donation is based upon the fact that as a group they are known to have a higher risk of acquiring a blood borne infection such as HIV or Hepatitis B which then could be potentially transmitted through a blood transfusion. This increased risk also applies to other groups of people including sex workers, people who have partners known to be infected with transfusion transmissible infections like HIV or hepatitis B, people who have partners from parts of the world with a very high incidence of HIV/AIDS, people who have ever injected themselves with non-prescribed drugs and people who are currently taking Pre-Exposure Prophylaxis (PrEP) or Post-Exposure Prophylaxis (PEP). Of course, each individual within these larger groups presents a different level of risk dependant on their specific circumstances. Currently the WBS is unable to adapt these rules for individuals and must adhere to the overarching guidelines.

4. The Minister puts MSM in the same category as drug users and sex workers. Both of these things are choices, being LGBT+ is not a choice. This is evidenced in the Equality Act 2010 where gender and sexual orientation feature as protected characteristics. Addiction and job type do not.
5. The Minister fails to state the benefits of increased blood donations from males, especially in light of COVID19. It is a fact that male blood contains higher levels of antipathogen antibodies i.e. against a virus. This is something that is sought after currently in light of the COVID19 pandemic. MSM blood therefore would be a huge help to healthcare professionals working to remedy this pandemic.
6. The Minister fails to state that the Welsh Blood Service (WBS) is experiencing shortages of O- blood at present, something that MSM could help alleviate, if they could freely donate blood. This is evidenced in the social media pleas from WBS begging donors to come forward.

Points five and six alone highlight the shortcomings of restricting MSM being able to donate blood, the impact of which affects the population as a whole in Wales, not just the LGBT+ community.

Many thanks for taking the time to read our response. We are extremely grateful for the time you have committed to our petition and for your continued commitment to making Wales a better place in which for LGBT+ people to live and work.

Yours respectfully,
Blood Equality Wales

Eitem 3.2

P-05-1007 Uno Yr Hôb a Chaergwrle i greu ward dau aelod yn Sir y Fflint

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan David John Healey, ar ôl casglu cyfanswm o 282 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae Adroddiad Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn argymhell uno Kinnerton Uchaf a'r Hôb i greu ward dau aelod a bod Caergwrle, Llanfynydd a Threuddyn hefyd yn cael eu huno i greu ward dau aelod. Mae'r ail gynnig yn gwbl newydd ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar ei gyfer.

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae gan gymunedau Yr Hôb a Chaergwrle hen hanes o weithio gyda'i gilydd ac maent yn cael eu hystyried yn un anheddiad bob ochr i Afon Alyn. Mae pobl ledled y byd yn gwybod am yr ymadrodd 'Live in Hope, Die in Caergwrle'. Mae'r ysbryd cymunedol rhwng y ddau bentref wedi chwarae rhan hanfodol wrth roi cefnogaeth i drigolion bregus yn ystod y pandemig Covid-19 a bydd yn hanfodol wrth adeiladu gwytnwch cymunedol ar ôl Covid-19. Mae'r trefniadau etholiadol arfaethedig yn bygwth tynnu'r gymuned i gyfeiriadau gwahanol a thanseilio cydlyniant cymdeithasol amlwg ar adeg dyngedfennol. Rydym yn annog y Senedd i roi pwyslais sylweddol ar gydlyniant cymdeithasol yn yr achos hwn wrth bennu ffiniau wardiau yn y dyfodol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Alun a Glannau Dyfrdwy
- Gogledd Cymru

Uno Yr Hôb a Chaergwrle i greu ward dau aelod yn Sir y Fflint

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020
Petitions Committee | 29 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13682

Rhif y ddeiseb: P-05-1007

Teitl y ddeiseb: Uno Yr Hôb a Chaergwrle i greu ward dau aelod yn Sir y Fflint.

Geiriad y ddeiseb: Mae Adroddiad Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn argymhell uno Kinnerton Uchaf a'r Hôb i greu ward dau aelod a bod Caergwrle, Llanfynydd a Threuddyn hefyd yn cael eu huno i greu ward dau aelod. Mae'r ail gynnig yn gwbl newydd ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar ei gyfer.

Mae gan gymunedau Yr Hôb a Chaergwrle hen hanes o weithio gyda'i gilydd ac maent yn cael eu hystyried yn un anheddiad bob ochr i Afon Alyn. Mae pobl ledled y byd yn gwybod am yr ymadrodd 'Live in Hope, Die in Caergwrle'. Mae'r ysbryd cymunedol rhwng y ddau bentref wedi chwarae rhan hanfodol wrth roi cefnogaeth i drigolion bregus yn ystod y pandemig Covid-19 a bydd yn hanfodol wrth adeiladu gwytnwch cymunedol ar ôl Covid-19. Mae'r trefniadau etholiadol arfaethedig yn bygwth tynnu'r gymuned i gyfeiriadau gwahanol a thanseilio cydlyniant cymdeithasol amlwg ar adeg dyngedfennol. Rydym yn annog y Senedd i roi pwyslais sylweddol ar gydlyniant cymdeithasol yn yr achos hwn wrth bennu ffiniau wardiau yn y dyfodol.



1. Y cyd-destun

Sefydlodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”) broses statudol ar gyfer cynnal adolygiadau o etholaethau a ffiniau yng Nghymru. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“Y Comisiwn”) sy'n gyfrifol am gynnal yr adolygiadau hyn. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus eang, sy'n cynnwys cyhoeddi cynigion drafft ar gyfer pob sir yng Nghymru, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi ac yn cyflwyno ei argymhellion terfynol i Weinidogion Cymru.

Mae argymhellion terfynol y Comisiwn wedyn yn ddarostyngedig i **gyfnod o chwe wythnos pan ellir cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru**. Yna, Gweinidogion Cymru sydd i benderfynu sut i symud ymlaen, ac a ddylid gweithredu argymhellion y Comisiwn trwy Orchymyn.

Dechreuodd yr adolygiad etholiadol ar gyfer Sir y Fflint ym mis Tachwedd 2018 pan gynhaliodd y Comisiwn ymgynghoriad cychwynnol. Cyhoeddwyd cynnig drafft ar gyfer y Trefniadau Etholiadol i Gyngor Sir y Fflint ym mis Awst 2019.

Yna cynhaliodd y Comisiwn gyfnod pellach o ymgynghori ar y cynigion drafft rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2019. Trafododd y Comisiwn y sylwadau a wnaed, cyn iddo gyhoeddi ei Argymhellion Terfynol ar gyfer trefniadau etholiadol Sir y Fflint yn y dyfodol. Cyflwynwyd ei argymhellion i Weinidogion Cymru ar **16 Mehefin 2020**.

Mae'r argymhellion allweddol yn cynnwys y canlynol:

- cyngor o **66** aelod, yn hytrach na'r **70** presennol. Mae hyn yn arwain at gyfartaledd sirol argymelledig o 1,809 o etholwyr yr aelod.
- 42 ward etholiadol, yn hytrach na'r **57** o wardiau presennol.
- 23 ward aml-aelod yn y Sir sy'n cynnwys 22 ward etholiadol dau aelod ac un ward etholiadol tri aelod.

2. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn gorff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Gall y Comisiwn wneud gwaith ar ei liwt ei hun, ar gais prif gyngor mewn rhai amgylchiadau neu yn dilyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.

Ar 23 Mehefin 2016, cyhoeddodd Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd Ddatganiad Ysgrifenedig yn gofyn i'r Comisiwn ailgychwyn ei raglen adolygu etholiadol 10 mlynedd. Byddai gan y rhaglen amserlen newydd wedi'i blaenoriaethu, gyda disgwyliad y byddai pob un o'r 22 adolygiad etholiadol yn cael eu cwblhau mewn pryd i'r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022.

3. Adolygiadau o Ffiniau ac Etholaethau

Dros amser, oherwydd newidiadau yn y boblogaeth, efallai y bydd angen gwneud newidiadau i ffiniau ardaloedd cymunedol neu i'r trefniant etholiadol yn rhai o'r 22 prif ardaloedd cyngor yng Nghymru neu ym mhob un ohonynt. Gall y Comisiwn wneud argymhellion ar nifer o faterion, gan gynnwys y nifer briodol o aelodau etholedig ar gyfer pob prif gyngor, ffiniau wardiau etholiadol ac a ddylai ward fod yn aml-aelod ai peidio.

Gall y Comisiwn wneud argymhellion ar drefniadau etholiadol i Weinidogion Cymru y mae'n teimlo sydd er budd **llywodraeth leol effeithiol a chyfleus**. Mae hyn wedi ei nodi yn Adran 21(3) o'r Ddeddf. Yn ei ddogfen Adolygiadau Etholiadol: Polisi ac Arfer, mae'r Comisiwn yn nodi:

Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â'r ystyriaethau a osodir allan yn y ddeddfwriaeth sy'n nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau bod "yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly".

Mae'r ddogfen yn mynd ymlaen i ddweud:

Bydd y Comisiwn yn ceisio darparu'r lefel orau o gydraddoldeb etholiadol ar gyfer pob ardal dan sylw a bydd yn cymryd pob achos yn ôl ei deilyngdod. Mae'r Comisiwn o'r farn y gellir cyfiawnhau gwyr o'r gymhareb gyfartalog ar gyfer y cyngor dim ond gyda thystiolaeth eglur o ffactorau cydbwysol eraill, megis cysylltiadau lleol neu ystyriaethau perthnasol eraill..

Bydd y rhaglen bresennol o adolygiadau etholiadol yn ceisio cyflwyno argymhellion ar gyfer **pob un o'r 22 prif ardaloedd Cyngor** i Weinidogion Cymru, i gael eu gweithredu gydag addasiadau, neu hebddynt, mewn pryd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol 2022.

Mae'r ffordd y mae'r Comisiwn yn cynnal adolygiad etholiadol yn cael ei ddiffinio gan y Ddeddf; trwy ei ddogfen Adolygiadau Etholiadol: Polisi ac Arfer; a thrwy gyfarwyddiadau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Mae canllawiau'r Comisiwn ar gyfer adolygiadau etholiadol yn nodi'r gweithdrefnau a'r dull y mae'n bwriadu eu mabwysiadu mewn perthynas ag adolygiadau. Mae'r canllawiau hefyd yn esbonio sut mae'r Comisiwn yn ystyried mater y nifer briodol o aelodau

etholedig a nodwyd ar gyfer pob prif gyngor. Mae llyfryn ar wahân ar ei **Bolisi Meintiau** **Cynghorau**.

4. Camau gweithredu'r Senedd

Mae gorchmynion a rheoliadau a wneir o dan adrannau 37 i 39, a 43 o Ddeddf 2013 (ac eithrio adran 37(1) a 41(1)), yn ddarostyngedig i'r gofynion a'r gweithdrefnau a nodir yn yr adrannau hynny ac adrannau cysylltiedig yn unig. Yn ymarferol, yr hyn y mae hyn yn ei olygu yw y gellir meddwl am y rhain fel offerynnau statudol '**dim gweithdrefn**' ac, o'r herwydd, nid ydynt yn destun gwaith craffu gan y Senedd trwy naill ai'r weithdrefn negyddol neu gadarnhaol.

Fodd bynnag, dylid nodi bod y gweithdrefnau penodol a nodir yn yr adrannau perthnasol yn gosod nifer o ofynion math craffu fel ymgynghori â phartïon penodedig, terfynau amser, ac os ydynt yn cael eu gwneud gan rywun heblaw Llywodraeth Cymru, cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

Felly bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid gweithredu argymhellion y Comisiwn trwy Orchymyn, naill ai heb ei addasu neu gydag addasiad - neu beidio eu gweithredu o gwbl, yn dilyn cyfnod o gyflwyno sylwadau.

5. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Mewn llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol:

Mae'n bwysig bod pob adolygiad yn dilyn y broses statudol a bod cyfanrwydd y broses yn cael ei gadw. Rwy'n cael gohebiaeth yn rheolaidd mewn cysylltiad â'r adolygiadau sy'n cael eu cynnal ac er nad yw'n bosibl eu hateb yn fanwl, mae'r pwyntiau a godir yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am bob un o'r argymhellion ym mhob un o'r adroddiadau.

Er fy mod yn deall pam y byddai unigolion yn ceisio mynd ar drywydd deisebau o dan yr amgylchiadau hyn, rwy'n pryderu y gallai hyn ddod yn llwybr cynrychiolaeth arferol sy'n digwydd ochr yn ochr â'r broses gyfreithiol sefydledig.

Dechreuodd cyfnod statudol o chwe wythnos ar gyfer cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ar 16 Mehefin 2020, gan ddod i ben ar 28 Gorffennaf 2020.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Ein cyf/Our ref JJ/02102/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau,
Senedd Cymru

deisebau@senedd.cymru

14 Medi 2020

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr 12 Awst ynghylch deiseb P-05-1007 Uno Hope a Chaergwrle yn un ward dau aelod yn Sir y Fflint.

Mae'r ddeiseb yn ymwneud ag argymhelliad a gynhwysir yn Adroddiad Terfynol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) i'r Adolygiad o Drefniadau Etholiadol yn Sir y Fflint.

Gallai fod o gymorth imi nodi'r broses a'r amserlen ar gyfer y rhaglen bresennol o adolygiadau fel cefndir.

Sefydlwyd y Comisiwn yn 1974 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd ei ailenwi'n Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn 2013 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) Mae'n gyfrifol, ymhlith pethau eraill, am adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer ardaloedd y prif gynghorau yng Nghymru yn rheolaidd a gwneud cynigion i Lywodraeth Cymru ynghylch newidiadau angenrheidiol er lles Llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i ffiniau etholiadol, cymarebau cynghorwyr i etholwyr neu newidiadau i wardiau etholiadol.

Ym mis Mehefin 2016 penderfynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd y dylai adolygiadau pob un o'r 22 o ffiniau etholiadol gael eu cynnal yn rhyngor presennol Llywodraeth Leol hy cyn yr etholiadau nesaf ym mis Mai 2022 ac mewn digon o bryd i newidiadau i'r ffiniau etholiadol gael eu cymryd i ystyriaeth a'u hadlewyrchu mewn Gorchmynion. Er mwyn i'r adolygiadau fod yn eu lle ar gyfer etholiadau'r prif gynghorau ym mis Mai 2022 roedd angen iddynt gael eu cwblhau ac i'r Gorchmynion fod mewn grym erbyn diwedd Medi 2021 i roi digon o amser i'r awdurdodau lleol roi unrhyw newidiadau ar waith. Mae'r rhaglen hon o adolygiadau'n mynd rhagddi ar hyn o bryd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 118
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Deddf 2013 yn nodi proses statudol fanwl ar gyfer cynnal adolygiad. Mae hyn yn cynnwys proses ymgysylltu gychwynnol a rhanddeiliaid allweddol i lywio adroddiad drafft sy'n destun ymgynghoriad gan y Comisiwn ag ymgynghoreion gorfodol ac eraill i lywio adroddiad terfynol y mae'r Comisiwn yn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru. Mae'r adroddiad terfynol wedyn yn destun cyfnod o chwe wythnos i alluogi unigolion / sefydliadau gyflwyno sylwadau a phryderon am yr argymhellion a gynhwysir yn yr adroddiad terfynol. Yn dilyn y cyfnod hwn ac ar ôl ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law mae Gweinidogion Cymru'n gallu rhoi unrhyw argymhelliad ar waith (gydag addasiad neu heb addasiad) neu benderfynu peidio â gweithredu.

Mae'n bwysig bod pob adolygiad yn dilyn y broses statudol a bod uniondeb y broses yn cael ei gadw. Rwyf yn cael gohebiaeth yn rheolaidd mewn cysylltiad â'r adolygiadau sy'n cael eu cynnal ac er nad oes modd eu hateb i gyd yn fanwl, mae'r pwyntiau a godir yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau am bob un o'r argymhellion ym mhob un o'r adroddiadau.

Er fy mod yn deall pam y byddai unigolion yn ceisio mynd ar drywydd deisebau yn yr amgylchiadau hyn, rwyf yn pryderu y gallai hyn ddod yn ffordd arferol o gyflwyno sylwadau sy'n digwydd ochr yn ochr â'r broses gyfreithiol sefydledig.

Gan fod adroddiad Sir y Fflint yn mynd trwy'r broses statudol ar hyn o bryd rwyf yn siŵr y byddwch yn deall na allaf roi gwybodaeth bellach ichi am y mater.

Yn gywir,



Julie James AS/MS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Petition P-05-1007 Merge Hope and Caergwrle into a two-member ward in the County of Flintshire – Correspondence from the petitioner to Committee, 17.09.20

Dear Chair,

Thank you for your email of 14th September informing me of the current situation with regard to consideration of this petition, for enclosing the response from the Minister and for your offer to send me the link to the live broadcast of the meeting via Senedd TV. This level of communication is really appreciated.

I note that the Minister has taken the time to explain the wider context of the petition including the June 2016 decision to require the review of all county council electoral boundaries so that arrangements could be in place in time for the next elections of May 2022.

I also note the Minister's concern that it is important that all reviews follow the same statutory process and that there would be issues if a parallel process of petitioning over boundary issues developed alongside the established legal process.

Whilst I fully respect the need to adhere to legally established processes I believe that the Petitions Committee should consider this petition and also the wider context of boundary reviews because of the unprecedented situation presented by the coronavirus pandemic.

The organisational challenges which local communities will face in adapting local political party structures to meet the requirements of new electoral boundaries will be considerable. Unlike any previous occasion, the new arrangements will have to be established by local groups working via virtual platforms (i.e. something akin to 'Zoom' meetings rather than physical meetings.) Whilst it may be argued that this process may engage people who are too busy to attend physical meetings, the chances are that it will not involve those, at grassroots level, of all political colours, who are not digitally proficient. In brief, the Iron Law 'Whoever says Organisation says Oligarchy' (Michels, 1911) will become "Whoever says Digital Organisation says Oligarchy, Disengagement and Apathy." It is likely to be the elderly community stalwarts who regularly make the tea or organise the raffle who are disenfranchised by this process. The Local Democracy and Boundary Commission would probably not welcome this as a desirable outcome.

In view of the above considerations it may be that the Petitions Committee will consider a recommendation for Welsh Government to pause further reviews of electoral boundaries during the current pandemic.

The key issue raised by the petition is that Hope and Caergwrle have very long-established historical links and numerous community links which make the two wards an obvious building block in any further review of electoral boundaries. These links have proved to be of great importance in enabling support to be given to vulnerable people during the lockdown and will be important in promoting community resilience during the recovery period. The Petitions Committee may, therefore, feel that it is appropriate to recommend that to Welsh Government that

the wards of Hope and Caergwrle should be merged into a two-member ward as a key building block in the process of boundary review.

The Local Democracy and Boundary Commission has been tasked with the job of reviewing electoral boundaries and naturally gives determining significance to the issue of electoral parity. The need to establish constituencies of equal size is a long-established cornerstone of British democracy and we must never return to the era of 'Pocket Boroughs'. However, the pandemic has now thrown up the issue of community resilience and it seems appropriate for Welsh Government to consider the need to balance electoral parity with provisions to safeguard this resilience.

The pandemic has given Wales the opportunity to consider a further development of the democratic process which builds up on the need for 'Equal Constituencies' to make them 'Equal Cohesive Constituencies'. The Petitions Committee may consider the recommendation to ask the Local Democracy and Boundaries Commission to give consideration to the type of service transformation which it needs to undertake to meet the requirements of the New Normal. I appreciate that this may have far-reaching and radical implication for the review of other electoral boundaries in pursuit of a more inclusive and participatory form of democracy.

In summary the three recommendations which are being suggested are:

Recommendation 1: Pause the current process of reviewing electoral boundaries during the period of the coronavirus pandemic;

Recommendation 2: Merge Hope and Caergwrle to become a two-member ward within the County of Flintshire;

Recommendation 3: Invite the LDBC to review its own Terms of Reference so that the process of boundary review gives weighting to the need to retain community cohesion in order to promote resilience during the recovery period and beyond.

Thank you for allowing me to respond to the letter from the Minister and for your consideration of the petition and the wider issues raised by the process of boundary review.

Eitem 3.3

P-05-1008 Dysgu cymorth cyntaf iechyd meddwl yn ysgolion Cymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jonny Alcock, ar ôl casglu cyfanswm o 222 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Am gyfnod llawer rhy hir yn awr, mae llofrudd tawel wedi bod yn peri galar yng Nghymru. wrth i bobl ddirifedi golli anwyliaid ar ôl brwydr anhysbys.

Diben y ddeiseb hon yw pwysu am hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl mewn ysgolion er mwyn creu cymdeithas lle bydd pobl bob amser yn cael y cymorth a'r arfau i ymladd y frwydr ofnadwy y mae llawer yn ei hwynebu bob dydd, gan achub bywydau llawer, gobeithio.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Pontypridd
- Canol De Cymru

Dysgu cymorth cyntaf iechyd meddwl mewn ysgolion

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020
Petitions Committee | 29 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13862

Rhif y ddeiseb: P-05-1008

Teitl y ddeiseb: Dysgu cymorth cyntaf iechyd meddwl yn ysgolion Cymru

Testun y ddeiseb: Am gyfnod llawer rhy hir yn awr, mae llofrudd tawel wedi bod yn peri galar yng Nghymru. wrth i bobl ddirifedi golli anwyliaid ar ôl brwydr anhysbys. Diben y ddeiseb hon yw pwysu am hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl mewn ysgolion er mwyn creu cymdeithas lle bydd pobl bob amser yn cael y cymorth a'r arfau i ymladd y frwydr ofnadwy y mae llawer yn ei hwynebu bob dydd, gan achub bywydau llawer, gobeithio.



1. Cefndir

Mae iechyd a lles meddyliol ac emosiynol wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm cyfredol trwy addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh). Mae darparu ABCh yn ofyniad statudol yn y cwricwlwm sylfaenol, ond yr ysgol sydd i benderfynu beth yw'r cynnwys. Mae'r fframwaith anstadudol, y **Fframwaith addysg personol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru** (2008) yn awgrymu dulliau i'w cymryd, a deilliannau dysgu. Mae iechyd a lles emosiynol yn un o bum thema'r fframwaith ABCh.

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru ar gyfer plant 3-16 oed yn cael ei gyflwyno ym mhob ysgol sydd wedi'i chynnal, a phob lleoliad meithrin sy'n derbyn nawdd cyhoeddus, o fis Medi 2022 ymlaen, fesul cam. Cafodd **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** ei gyflwyno i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020. Mae'r Bil yn nodi beth yw pedwar diben y cwricwlwm:

- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- Galluogi disgyblion a phlant i ddatblygu yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio y bydd y Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru **wedi'i lywio gan ddibenion yn hytrach na'i liwio gan y cynnwys**. Nid oes cynnwys penodol ar gyfer addysgu'n cael ei nodi yn yr un modd ag o dan y cwricwlwm cenedlaethol presennol.

Mae'r Bil yn nodi chwe Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer y cwricwlwm newydd a'r elfennau gorfodol ynddynt. Dyma'r Meysydd Dysgu a Phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yr elfennau gorfodol o fewn y Meysydd Dysgu a Phrofiad fydd: Saesneg, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb; Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a Chymraeg

Mae'r Bil yn darparu 'Cod yr Hyn sy'n Bwysig' i nodi cysyniadau allweddol dysgu a phrofiad ym mhob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (gan gynnwys y Dyniaethau) a bydd yn rhaid i gwricwla ysgolion gwmpasu pob un o'r cysyniadau hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig' yn [nogfennaeth Cwricwlwm Cymru](#). Y bwriad yw iddo ddarparu'r 'dull gweithredu cenedlaethol' a fydd, [yn ôl y Gweinidog Addysg](#), yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.

Cyhoeddwyd y [canllaw statudol dros dro ar Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles](#), ym mis Ionawr 2020. Mae hwn yn nodi:

Elfennau sylfaenol y Maes hwn yw iechyd a datblygiad y corff, iechyd meddwl, a lles emosiynol a chymdeithasol.

2. Camau gan Senedd Cymru

2.1. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg adroddiad ynghylch ei ymchwiliad i iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, [Cadernid Meddwl](#), ym mis Ebrill 2018. Nid oedd y Pwyllgor yn fodlon bod y [Ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru](#) Cyflawnodd [PDF 1.2KB] argymhellion adroddiad y Pwyllgor.

Ym mis Mai 2019, cafwyd diweddariad gan y [y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg](#) ar yr argymhellion i'r Pwyllgor CYPE. Ym mis Mehefin 2019, bu'r Pwyllgor yn cynnal gwaith dilynol a [chlywed tystiolaeth lafar](#) gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg.

2.2. Y Pwyllgor Deisebau

Yn 2016, bu'r Pwyllgor yn ystyried dwy ddeiseb, sef [Cyflwyno Addysg Iechyd Meddwl Orfodol mewn Ysgolion Uwchradd a Gwneud Iechyd Meddwl yn Rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol](#). Ar y pryd, dywedodd y Gweinidog Addysg, fel rhan o ddyluniad y cwricwlwm newydd y byddai'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn tynnu ar les meddyliol, corfforol ac emosiynol. O ganlyniad, cytunodd y pwyllgor i gau'r naill ddeiseb a'r llall.

3. Camau gan Lywodraeth Cymru

Ar [14 Ionawr 2019](#) cyhoeddodd y [Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#) y bydd £7.1 miliwn ar gael i gefnogi'r Llywodraeth yn ei gwaith, yn dilyn argymhellion y Pwyllgor. Bwriedir i'r

arian warchod, gwella a chefnogi iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc, trwy ddatblygu gwasanaethau ymhellach. Mae'r buddsoddiad o £7.1 miliwn yn ychwanegol at yr £1.4 miliwn sy'n cael ei fuddsoddi gan Lywodraeth Cymru mewn rhaglen o wasanaethau iechyd meddwl mewngymorth i ysgolion i gryfhau'r gefnogaeth gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewn ysgolion mewn pedair ardal beilot ledled Cymru.

3.1. Dull ysgol-gyfan tuag at iechyd emosiynol ac iechyd meddwl

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid – wedi'i gadeirio ar y cyd gan y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – i ddatblygu dull ysgol-gyfan tuag at les emosiynol ac iechyd meddwl, fel rhan o ddull system gyfan sydd hefyd yn cydnabod y cysylltiadau rhwng lles meddyliol a chorfforol.

Ar 8 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad, Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol. Mae'r ymgynghoriad – sy'n cau ar 30 Medi 2020 – yn ceisio barn ar welliannau posibl i'r modd y bydd y fframwaith yn cefnogi'r canlynol:

- iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol pob dysgwr a'r staff
- datblygu ac ymgorffori arferion gorau
- cysondeb a chydweithrediad rhwng ysgolion a phartneriaid
- gweithgareddau fel hyfforddiant ac ymwybyddiaeth

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y briff hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref Deiseb P-05-1008
Ein cyf/Our ref KW/04524/20
Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Deisebau@Senedd.Cymru

21 Awst 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth ddyddiedig 12 Awst ynghylch Deiseb P-05-1008 Dysgu cymorth cyntaf iechyd meddwl yn ysgolion Cymru.

Mae iechyd meddwl a lles dysgwyr yn fater hynod o bwysig i mi. Mae gan ysgolion gyfle ar hyn o bryd i edrych ar y materion hyn o fewn y cwricwlwm presennol fel rhan o ABCh, ac fel y gwyddoch o 2022 ymlaen bydd [Cwricwlwm newydd i Gymru](#).

Wrth galon fframwaith y Cwricwlwm i Gymru mae pedwar diben sydd wedi sydd wedi bod yn ganolog i bob penderfyniad a wnaed am y cwricwlwm newydd. Un o'r pedwar diben yw helpu plant a phobl ifanc i fod yn unigolion iach a hyderus, sydd yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi.

Lluniwyd y Cwricwlwm i Gymru i gyfrannu cymaint â phosib at y pedwar diben. Maent yn gosod dibenion sylfaenol addysg sy'n sail i'r hyn y dylem anelu at ei gyflawni i'n plant a'n pobl ifanc.

Mae'r cwricwlwm newydd yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Dyma ran arloesol o'r cwricwlwm newydd, ac mae'n ceisio sicrhau bod cyfleoedd dysgu a chymorth ar faterion fel iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol yn cael eu darparu i bob person ifanc yng Nghymru. Lluniwyd y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles i helpu i ddatblygu egwyddorion sylfaenol iechyd a lles ymysg dysgwyr, gan ganiatáu i weithwyr proffesiynol rannu cynnwys penodol fel sy'n briodol i'w dysgwyr.

Mae fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi cyfle i bob ysgol lunio a mabwysiadu eu cwricwlwm eu hunain. Mae'n annog ysgolion i adeiladu eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer eu dysgwyr o fewn cyd-destun y pedwar diben a'r dysgu sy'n cael ei ddiffinio ar lefel genedlaethol. Dylai ysgolion ac ymarferwyr ddefnyddio canllawiau ac adnoddau er mwyn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

penderfynu pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol fydd yn helpu eu dysgwyr i wireddu'r pedwar diben, yng nghyd-destun y cysondeb sy'n cael ei ddarparu gan y fframwaith cenedlaethol.

Er nad yw canllawiau'r cwricwlwm newydd yn cynnwys rhestr hir o bynciau unigol, mae'n nodi'r hyn y dylai ysgolion ei ystyried wrth lunio eu cwricwlwm a'r disgygliadau bras ar gyfer dysgwyr.


Bydd ysgolion yn cael yr hyblygrwydd i ddewis y cynnwys sydd fwyaf addas ar gyfer diwallu anghenion eu dygwyr o fewn eu cyd-destun penodol. Bydd gan ddysgwyr o wahanol gefndiroedd amrywiol anghenion, ac mae'r Fframwaith yn cynnig cyfle i ysgolion a darparwyr ddewis y profiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol, yn ogystal â phynciau, gweithgareddau a chyd-destunau penodol gorau i helpu gyda'r dysgu o fewn y Fframwaith. Mae hyn yn golygu y bydd modd i ysgolion ddysgu cymorth cyntaf iechyd meddwl o fewn eu cwricwlwm, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys elfennau gorfodol, gan gynnwys Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Un o'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ar gyfer Iechyd a Lles yw 'Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol'. Dan y datganiad hwn, bydd dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i edrych ar gymhlethdodau'r cysylltiadau rhwng eu profiadau, eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol. Bydd hyn yn eu galluogi i ddeall eu teimladau a datblygu strategaethau i'w helpu i reoli eu hemosiynau, a all gyfrannu at iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol. Bydd rhoi cyfle i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a rhyddid i fynegi eu teimladau yn helpu i greu diwylliant lle mae siarad am iechyd meddwl a lles emosiynol yn weithred arferol.

Mae [canllawiau 'Cynllunio Eich Cwricwlwm'](#), a gyhoeddwyd i helpu ysgolion i roi fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ar waith, yn egluro bod angen i ddysgwyr ddeall y cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a lles emosiynol, sut y gall iechyd meddwl a lles emosiynol effeithio arnynt, ac y gall ein hiechyd meddwl newid dros amser. Dylai ysgolion sicrhau bod eu systemau cymorth ac ethos yr ysgol gyfan yn galluogi dysgwyr i siarad yn agored, nid yn unig am eu hiechyd meddwl, eu teimladau, eu meddyliau a'u hemosiynau eu hunain, ond hefyd rhai pobl eraill.

Gobeithio bod hyn yn egluro'r sefyllfa.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

P-05-1009 Gorchmynnwch Gyngorau Cymru i gymhwyso gordal o 100 y cant o leiaf i'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Michael Murphy, ar ôl casglu cyfanswm o 1,026 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae ail gartrefi a chartrefi tymhorol yn dinistrio ein cymunedau gwledig, tra'u bod yn prisio pobl leol allan o'r farchnad dai. Yn y cyfamser, mae llawer o berchnogion ail gartrefi yn osgoi talu unrhyw Dreth Gyngor drwy hawlio rhyddhad ardrethi busnesau bach. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn mynd ati o ddifrif i anghymell hyn a chymhwyso cosbau o 10 y cant o werth ail gartref am achosion o osgoi bwriadol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

Ail gartrefi a'r dreth gyngor

Y Pwyllgor Deisebau | 29 Medi 2020
Petitions Committee | 29 September 2020

Cyfeirnod: RS20/13682-9

Rhif y ddeiseb: P-05-1009

Teitl y ddeiseb: Gorchynnwch Gyngorau Cymru i gymhwyso gordal o 100 y cant o leiaf i'r Dreth Gyngor ar ail gartrefi.

Geiriad y ddeiseb: Mae ail gartrefi a chartrefi tymhorol yn dinistrio ein cymunedau gwledig, wrth brisio pobl leol allan o'r farchnad dai. Yn y cyfamser mae llawer o berchnogion ail gartref yn osgoi talu unrhyw Dreth Gyngor trwy hawlio rhyddhad i fusnesau bach. Dylai Llywodraeth Cymru fod yn mynd ati i annog hyn i beidio a chymhwyso cosbau o 100% o werth ail gartref am osgoi bwriadol.



1. Cefndir

Premiwm dewisol ar y dreth gyngor

Roedd *Deddf Tai (Cymru) 2014* yn diwygio *Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992* ('Deddf 1992') i roi pwerau i awdurdodau lleol yng Nghymru ddewis codi cyfraddau uwch o'r dreth gyngor mewn perthynas ag anheddau gwag tymor hir (sydd wedi bod yn wag am o leiaf blwyddyn) ac anheddau a feddiannir o bryd i'w gilydd, a elwir yn fwy cyffredin yn ail gartrefi.

Cyfeirir at y dreth gyngor ychwanegol hon fel premiwm. Y cynnydd mwyaf y gall awdurdod lleol ei godi yw 100% ychwanegol o ffi safonol y dreth gyngor, h.y. premiwm treth gyngor o 100%. Mae hyn yn golygu y gallai'r awdurdod godi hyd at ddwbl cyfradd safonol y dreth gyngor ar berchnogion tai ar gyfer annedd o'r fath.

Y tro cyntaf y bydd awdurdod lleol yn dewis codi premiwm o'r fath, rhaid iddo wneud ei benderfyniad o leiaf blwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y codir y premiwm ynddi. Mae awdurdodau lleol wedi bod â'r gallu i godi premiwm ers mis Ebrill 2017.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r pwerau hyn. Mae'r canllawiau'n nodi:

Bwriad y disgrisiwn a roddir i awdurdodau lleol i godi premiwm yw bod yn ffordd o helpu awdurdodau lleol i:

- adfer defnydd cartrefi gwag hirdymor er mwyn darparu cartrefi saff, diogel a fforddiadwy; a
- chynorthwyo awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella cynladwyedd cymunedau lleol.

Wrth benderfynu p'un ai codi premiwm ynteu peidio, dylid talu sylw i'r nodau hyn.

Eiddo sydd wedi'i eithrio

Ni ellir codi premiwm treth gyngor ar eiddo sydd naill ai heb ei fandio at ddibenion y dreth gyngor, wedi'i eithrio rhag y dreth gyngor yn gyfan gwbl, neu lle mae Gweinidogion Cymru wedi dweud yn benodol na chaniateir codi premiwm arno.

Mae *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015* yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau lle na ellir codi premiwm. Mae'r rhain yn cynnwys eithriadau ar gyfer safleoedd carafannau wedi'u meddiannu (lle bônt yn wag ar hyn o bryd, ond fydd yn unig breswylfa neu brif breswylfa unigolyn pan fyddant yn cael eu meddiannu) a hefyd gartrefi

tymhorol lle na chaniateir eu meddiannu trwy gydol y flwyddyn. Mae'r eithriad hwnnw'n berthnasol i anheddau sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n atal deiliadaeth am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf mewn unrhyw gyfnod o 12 mis.

Os bodlonir rhai amodau, gallai rhai perchnogion ail gartref fod yn atebol am ardrethi annomestig (ardrethi busnes), yn hytrach na'r dreth gyngor. Yn yr achosion hynny, ni ellid codi premiwm y dreth gyngor ar gyfer ail gartrefi.

Ardrethi annomestig

Rhodddwyd cryn sylw yn y Senedd i allu perchnogion ail gartref neu lety hunanarlwyo i brisio eu heiddo at ddibenion cyfraddau annomestig yn lle'r dreth gyngor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi **Canllawiau i Drethdalwyr: Ardrethi Annomestig ar gyfer Eiddo Hunanddarpar yng Nghymru**. Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i eiddo fod yn atebol am ardrethi annomestig yn hytrach na'r dreth gyngor:

...o 1 Ebrill 2010 ymlaen, mae eiddo yn annomestig, ac felly'n rhwymedig i dalu ardrethi annomestig, os yw Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn fodlon:

- y bydd ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanarlwyo am gyfnodau byr sy'n dod i gyfanswm o 140 diwrnod neu fwy yn y 12 mis canlynol;
- bod diddordeb y trethdalwr yn yr eiddo yn galluogi iddo ei rentu am gyfnodau o'r fath;
- yn y 12 mis cyn yr asesiad bu ar gael i'w osod yn fasnachol fel llety hunanarlwyo am gyfnodau byr yn dod i gyfanswm o 140 diwrnod neu fwy; a
- bod y cyfnodau byr y'i gosodwyd mewn gwirionedd yn dod i gyfanswm o 70 diwrnod o leiaf yn ystod y cyfnod hwnnw.

Rhaid i drethdalwyr barhau i fodloni meini prawf yr ardrethi annomestig ar gyfer pob eiddo, am bob cyfnod o 12 mis.

Fel arall, os na fydd yr eiddo'n syrthio i gategori arall o eiddo annomestig, mae'n debyg y bydd yr eiddo yn cael ei ystyried yn "ddomestig" ac yn gorfod cael asesiad o'i rwymedigaeth i dalu'r dreth gyngor.

Mae'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni yn ofynion statudol ac fe'u nodir yn adran 66 (2BB) o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988* fel y'i diwygiwyd gan y *Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010*.

Diwygiodd *Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2016* y meini prawf uchod o 1 Ebrill 2016 fel bod gan:

... fusnesau sy'n cynnwys nifer o eiddo hunanddarpar yn yr un lle neu'n agos iawn i'w gilydd y dewis i gyfartalu nifer y diwrnodau y caiff eiddo eu gosod i fodloni'r maen brawf 70 diwrnod pan fyddant yn cael eu gosod gan yr un busnes neu fusnesau cysylltiedig.

Y Swyddfa Brisio sy'n penderfynu a yw eiddo wedi'i gategoreiddio fel eiddo domestig neu annomestig yn unol â'r gofynion statudol. Mae'r Swyddfa Brisio'n asiantaeth weithredol a noddir gan Gyllid a Thollau EM. Mae'r Swyddfa Brisio yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Pan fo eiddo wedi'i restru fel bod yn llety hunanddarpar, ond nad yw'n bodloni'r meini prawf statudol, gallai'r perchennog wynebu gorchymyn treth gyngor wedi'i ôl-ddyddio.

Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach

Er y gallai perchnogion ail gartrefi fod yn atebol i dalu ardrethi busnes, gallant hefyd fod yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, ac efallai na chodir ffi arnynt ar ôl i'r Rhyddhad gael ei gymhwyso..

Yn ogystal â mathau penodol o ryddhad wedi'u targedu at fathau penodol o fusnesau, bydd eiddo busnes cymwys sydd â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100% a'r rhai sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar sail lleihau'n raddol o 100% i sero. Mae nifer yr eiddo sy'n gymwys ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach wedi'i gyfyngu i ddau eiddo i bob busnes ym mhob awdurdod lleol.

Gweler canllawiau Llywodraeth Cymru, [*Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol i Gymru*](#), i gael manylion pellach ynghylch y cynllun.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ymateb y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i'r ddeiseb hon, mae'n nodi bod gan awdurdodau lleol eisoes bwerau dewisol i 'godi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar ail gartrefi, ac eiddo gwag tymor hir'. Mae'r Gweinidog yn nodi bod y pŵer dewisol:

Yn galluogi awdurdodau unigol i deilwra eu dulliau gweithredu i anghenion ac amgylchiadau penodol eu hardal, ac i gydbwyso buddiannau cymunedau, perchnogion tai a'r economi leol

Mae'r ymateb yn mynd ymlaen i ddweud:

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a VOA i nodi unrhyw achosion o eiddo sydd wedi'i restru'n anghywir fel llety hunanddarpar. Gwahoddwyd awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth am eiddo y maent yn credu sydd wedi'i restru'n anghywir er mwyn i VOA ei harchwilio. Does dim tystiolaeth wedi'i nodi eto o restru eiddo hunanddarpar yn amhriodol. Mae'r gwahoddiad i awdurdodau ddarparu tystiolaeth i VOA ei harchwilio yn parhau ar agor.

3. Camau gan Senedd Cymru

Yn flaenorol, mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd wedi ystyried nifer o ddeisebau yn ymwneud ag ail gartrefi a'r dreth gyngor. Ystyriwyd y ddeiseb Trethu Ail Gartrefi yn ystod 2019/20. Roedd y ddeiseb honno yn canolbwyntio ar yr hyn a ddisgrifiodd y deisebwyr fel 'bwlch yn y gyfraith' a oedd yn caniatáu i berchnogion tai newid eu heiddo o dalu'r dreth gyngor gan dau yn hytrach yr ardrethi annomestig. Wrth ymateb i'r ddeiseb honno, dywedodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd mewn llythyr at y Pwyllgor ar 5 Mehefin 2019 "nad oes unrhyw fwlch yn y gyfraith."

Cynhaliodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd ymchwiliad i eiddo gwag yng Nghymru a oedd, yn rhannol, yn ystyried premiymau'r dreth gyngor gan fod eiddo gwag o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwnnw hefyd. Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Hydref 2019. Roedd yr adroddiad yn gwneud yr argymhelliad a ganlyn, ac fe'i derbyniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn egwyddor, yn amodol ar gasglu tystiolaeth bellach:

Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a CLILC yn cynnal ymarfer i asesu a yw pobl yn cymryd camau i osgoi talu premiwm y dreth gyngor, gan gynnwys newid categori eiddo i fod yn llety hunanarlwyo neu drwy honni bod aelod o'r teulu wedi symud i eiddo gwag er mwyn cael disgownt person sengl. Pe bai'r ymarfer yn dangos cynnydd sylweddol mewn arferion o'r fath, dylid cymryd camau pellach i atal pobl rhag osgoi premiymau'r dreth gyngor.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y briff hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref: P-05-1009
Ein cyf/Our ref: RE/00634/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
